Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Ymdopi â Mynediad i Wasanaethau

Chwefror, 2007

Adroddiad Ymchwil 12

**White, S.D., Walkley, C., Radcliffe, J., Edwards B.**

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru Aberystwyth 1872 The University of Wales

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| 1. RHAGYMADRODD | | Tudalen 3 |
| 1.1 | Nodau penodol yr astudiaeth | Tudalen 3 |
| 1.2 | Crynodeb o'r prosiect ymchwil | Tudalen 3 |
| 1.3 | Ffocws yr ymchwil | Tudalen 4 |
| 1.4 | Ffynonellau data | Tudalen 4 |
| 2. MYNEDIAD I WASANAETHAU MEWN ARDALOEDD GWLEDIG | | Tudalen 6 |
| 2.1 | Pwysigrwydd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig | Tudalen 6 |
| 2.2 | Materion Hygyrchedd | Tudalen 10 |
| 2.3 | Y Cyd-destun Polisi Diweddar | Tudalen 13 |
| 3. Y FETHODOLEG | | Tudalen 15 |
| 3.1 | Defnyddio mesuriadau mynediad i ddethol sectorau post yr Arolwg Aelwydydd | Tudalen 15 |
| 3.2 | Dylunio'r holiadur | Tudalen 22 |
| 3.3 | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | Tudalen 23 |
| 4. YMCHWIL FLAENOROL AR WASANAETHAU MEWN ARDALOEDD GWLEDIG GAN ARSYLLFA WLEDIG CYMRU | | Tudalen 26 |
| 4.1 Canlyniadau'r Arolwg o Fyw a Gweithio yn y Gymru Wledig | | Tudalen 26 |
| 4.1.1 | Ansawdd gwasanaethau | Tudalen 26 |
| 4.1.2 | Mynediad i wasanaethau | Tudalen 27 |
| 4.1.3 | Trafnidiaeth | Tudalen 29 |
| 4.1.4 | Gwasanaethau a chyfalaf cymdeithasol | Tudalen 30 |
| 4.2 Yr Arolwg o Wasanaethau Gwledig yng Nghymru | | Tudalen 35 |
| 5. CANLYNIADAU'R AROLWG O FYNEDIAD I WASANAETHAU GWLEDIG | | Tudalen 42 |
| 5.1 | Trafnidiaeth | Tudalen 42 |
| 5.2 | Siopa | Tudalen 45 |
| 5.3 | Swyddfeydd post a gwasanaethau ariannol | Tudalen 51 |
| 5.4 | Ysgolion | Tudalen 52 |
| 5.5 | Gwasanaethau iechyd | Tudalen 53 |
| 5.6 | Hamdden a llyfrgelloedd | Tudalen 55 |
| 5.7 | Y newid yn y ddarpariaeth gwasanaethau ac mewn mynediad i wasanaethau dros amser | Tudalen 56 |
| 6. TRAFODAETH AR Y CANLYNIADAU A DIWEDDGLO | | Tudalen 58 |
| 6.1 | Trafnidiaeth Breifat | Tudalen 58 |
| 6.2 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | Tudalen 58 |
| 6.3 | Siopa am Fwyd | Tudalen 59 |
| 6.4 | Siopa am Ddillad | Tudalen 59 |
| 6.5 | Swyddfeydd Post | Tudalen 60 |
| 6.6 | Banciau a Chymdeithasau Adeiladu | Tudalen 61 |
| 6.7 | Gwasanaethau Addysg | Tudalen 61 |
| 6.8 | Gwasanaethau Meddygol | Tudalen 61 |
| 6.9 | Gwasanaethau Llyfrgell a Gwasanaethau Hamdden | Tudalen 62 |
| 6.10 | Diweddglo | Tudalen 63 |

## Adran Un: Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn un mewn cyfres sy'n darparu canfyddiadau allweddol rhaglen waith Cyfnod Tri Arsyllfa Wledig Cymru ar faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Gymru wledig. Thema'r adroddiad yw mynediad i wasanaethau gwledig allweddol a sut mae pobl yn defnyddio mecanweithiau ymdopi er mwyn mynd i'r afael â lefelau mynediad isel i wasanaethau o'r fath. Gan ddefnyddio gwaith arolygu blaenorol ar wasanaethau gwledig gan Arsyllfa Wledig Cymru, yn ogystal â dadansoddiadau newydd wedi'i seilio ar GIS a dadansoddiadau arolygon, mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu'r prif rwystrau sy'n atal mynediad i wasanaethau gwledig a sut mae trigolion cefn gwlad yn ymateb i sefyllfaoedd o'r fath. Mae'r adroddiad hefyd yn asesu'r ymatebion polisi cyfredol i fynediad i wasanaethau gwledig a darpariaeth gwasanaethau gwledig yng Nghymru.

### 1.1 Nodau penodol yr astudiaeth

Nodau penodol yr astudiaeth yw dod o hyd i'r canlynol:

- patrymau mynediad i amrediad o wasanaethau allweddol a hanfodol (cyhoeddus a phreifat) ar draws y Gymru wledig
- lefelau boddhad ar y mynediad i wasanaethau
- y dylanwadau mawr ar y patrymau mynediad, gan gynnwys gwledigrwydd, oedran, rhywedd a statws sosio-economaidd
- grwpiau penodol sydd ag anghenion ac anawsterau penodol
- y strategaethau ymdopi a ddefnyddir gan y rhai sy'n cael anhawster ynglyn â mynediad i wasanaethau

Rhagwelir hefyd y gallai patrymau a thueddiadau yn yr astudiaeth ganiatáu i deipoleg defnyddwyr gwasanaethau ar draws y Gymru wledig gael ei llunio.

### 1.2 Crynodeb o'r prosiect ymchwil

Mae'r prosiect hwn yn edrych ar fynediad i wasanaethau yn y Gymru wledig o safbwynt trigolion cefn gwlad. Cyflwynir adroddiad ar batrymau mynediad, profiadau mynediad, strategaethau mynediad, dewis mynediad a dylanwad mynediad ar ansawdd bywyd i drigolion cefn gwlad. Mae'r adroddiad ar yr ymchwil hefyd yn nodi'r dylanwadau allweddol ar fynediad i wasanaethau yn y Gymru wledig.

### 1.3 Ffocws yr ymchwil

Mae'r ymchwil yn hoelio sylw ar y materion canlynol o ran gwasanaethau gwledig:

- Pa mor bell neu am faint o amser y bydd trigolion cefn gwlad yn teithio er mwyn cael mynediad i wasanaethau
- Sut mae trigolion cefn gwlad yn cael mynediad i wasanaethau
- Faint o ddewis sy'n cael ei arddel gan drigolion cefn gwlad ynglyn â gwasanaethau
- Pa mor hawdd neu anodd yw hi i drigolion cefn gwlad gael mynediad i wasanaethau
- Y strategaethau a fabwysiedir gan drigolion cefn gwlad i ymdopi ag anawsterau mynediad
- Y disgwyliadau ynglyn â mynediad i wasanaethau

Mae'r ymchwil yn ystyried effaith amrediad o ffactorau ar fynediad i wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol o reidrwydd: y math o anheddiad (hunan-ddiffiniad); cyfnod preswylio; oedran; rhywedd; statws sosio-economaidd; anabledd; cyfansoddiad yr aelwyd; mynediad i drafnidiaeth breifat.

### 1.4 Ffynonellau data

Mae'r adroddiad yn defnyddio ac yn cyfuno tair prif ffynhonnell ddata: y data sydd eisoes ar gael ac a gasglwyd gan yr Arsyllfa ynghylch darparu gwasanaethau, anhawster wrth gael mynediad i wasanaethau ac argraffiadau o ansawdd gwasanaethau; data arall sydd eisoes ar gael ynghylch darparu gwasanaethau ar draws y Gymru wledig; data newydd a gasglwyd drwy waith arolygu. Hefyd, mae'r adroddiad yn ystyried data cymaradwy am fynediad i wasanaethau / darparu gwasanaethau yng nghefn gwlad Lloegr.

*Y data sydd eisoes ar gael a gyflenwyd gan yr Arsyllfa*

Mae'r Arsyllfa eisoes wedi casglu data ar ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, problemau mynediad i wasanaethau a brofir gan drigolion cefn gwlad ac argraffiadau o ansawdd gwasanaethau yn y Gymru wledig. Defnyddir data cryno ar lefelau a phatrymau darparu gwasanaethau yn y Gymru wledig i osod yr arolwg cyfredol yn ei gyd-destun. Rydym hefyd yn cyfrifo argaeledd gwasanaethau yn nhermau'r pellter ffisegol i wasanaethau penodol drwy ddadansoddi amser teithio drwy gyfrwng GIS. Mae dadansoddi pellach ar ddata ar broblemau mynediad ac argraffiadau o ansawdd yn hoelio sylw ar groesdabliadau a hidlo ymatebion.

*Data arall sydd eisoes ar gael*

Mae'r Arsyllfa hefyd wedi cael defnyddio data hanesyddol o arolwg o ddarparu gwasanaethau ar draws y Gymru wledig a gynhaliwyd ym 1995. Mae'r data hwn yn cael ei gymharu â data o'r arolwg mwy diweddar a gynhaliwyd yn 2004 er mwyn rhoi tystiolaeth ar dueddiadau (colledion ac enillion) wrth ddarparu gwasanaethau gwledig dros y naw mlynedd diwethaf.

*Gwaith arolygu ychwanegol*

Cafodd gwaith arolygu ychwanegol ei wneud ar ffurf 200 o gyfweliadau ffôn gyda sampl wedi'i haenu o drigolion cefn gwlad a ddewiswyd o blith ymatebwyr i'r arolwg o aelwydydd gwledig a gynhaliwyd gan yr Arsyllfa yn 2004. Mae'r cwestiynau'n canolbwyntio ar y pellter i wasanaethau, mathau o fynediad i wasanaethau, pa mor hawdd ac anodd yw cael mynediad, strategaethau ymdopi a disgwyliadau ynglyn â mynediad. Cwestiynau sydd ag ymatebion caeedig yw'r mwyafrif. Mae'r ymatebion wedi'u croesgyfeirio â data o'r arolwg aelwydydd.

*Arolygon o ddarparu gwasanaethau yng nghefn gwlad Lloegr*

Er 1997, mae'r Comisiwn Datblygu Gwledig ac wedyn yr Asiantaeth Cefn Gwlad wedi cynnal arolygon blynyddol o ddarparu gwasanaethau a mynediad i wasanaethau yng nghefn gwlad Lloegr. Gan fod yr arolygon hyn yn defnyddio methodolegau sy'n wahanol i'r arolygon cyfredol a chan fod ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru a Chynghorau Plwyf a Thref yn Lloegr yn wahanol o ran eu maint, does dim modd cymharu'r ddwy set o ddata yn uniongyrchol, er bod yna le i gymharu canfyddiadau cryno.

## Adran Dau: Mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig

### 2.1 Pwysigrwydd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig

At ddibenion yr ymchwil hon, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau hynny sy'n hanfodol ac sy'n darparu'r gofynion sylfaenol er mwyn i gymuned weithredu o ddydd i ddydd, er enghraifft gwasanaethau heddlu, gwasanaethau tân a gwasanaethau meddygol ac amgylcheddol, y rhai y gellir barnu eu bod yn allweddol ac y mae ar bobl eu hangen ond nad oes rhaid iddynt gael eu lleoli yn union yn eu hymyl, megis swyddfeydd post, siopau a banciau a gwasanaethau y gellir eu deall fel gwasanaethau atodol neu wasanaethau sy'n 'ychwanegu at y ffordd o fyw', megis canolfannau hamdden, sinemâu a thai bwyta. Mae'r gwahaniaeth hwn yn fan cychwyn er mwyn edrych ar wahanol lefelau darparu gwasanaethau, a'r materion sy'n gysylltiedig â hynny.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ystyried amrediad eang o wasanaethau sy'n cynnwys gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau allweddol er mwyn rhoi golwg holistig ar brofiad trigolion cefn gwlad wrth gael mynediad i wasanaethau o'r fath. Mae gwahaniaethu yn offeryn defnyddiol o ran deall gwahanol lefelau pwysigrwydd a pherthnasedd y gwahanol wasanaethau yn y Gymru wledig, er, fel y gwelir isod, fe all hyn gael ei ddatblygu a'i ehangu yn deipoleg fwy ymarferol. At ei gilydd, mae ar gymunedau gwledig angen gwasanaethau hanfodol mewn maint ac ansawdd sy'n cyfateb i'r angen mewn ardaloedd trefol, ac mae mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn holl-bwysig ar gyfer cynaliadwyedd cymunedau. Er hynny, mae anghysondebau gwledig-trefol wrth ddarparu gwasanaethau ac yn safonau'r gwasanaethau yn amlwg ers tro byd a hynny ar sail ryngwladol hefyd (Furuseth, 1998).

Ym 1991, awgrymodd yr OECD y gall gwasanaethau gwledig gael eu dosbarthu yn ôl teipoleg ac iddi bedair rhan, sy'n deillio o raddfa a grwp defnyddwyr y gwasanaethau (OECD Report X, 1991). Yn gyntaf, ceir gwasanaethau y bwriedir iddynt wneud ardaloedd gwledig yn fwy hygyrch i'r byd ehangach, er enghraifft rhwydweithiau cyfathrebu. Yn ail ceir y gwasanaethau seilwaith sylfaenol sy'n cynnal datblygiadau pobl, megis cyflenwadau dwr, trydan a ffyrdd. Yn drydydd, mae yna wasanaethau sydd wedi'u dylunio i wella ansawdd bywyd ac ail haen o seilwaith sy'n cyfateb i lefel ychwanegol o wasanaethau cyhoeddus drutach. Mae llywodraethau a darparwyr gwasanaethau eraill yn edrych yn fwy ac yn fwy ar y gwasanaethau hyn fel gwasanaethau 'gwella' sydd y tu hwnt i

rychwant y gwasanaethau sylfaenol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys cyfleusterau ehangach ar gyfer addysg a gofal iechyd, gwasanaethau post a hamdden. Yn bedwerydd ceir gwasanaethau busnes, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, buddsoddi mewn ymchwilio a datblygu ac uwchraddiadau yn y seilwaith sy'n cynnig llwyfan ar gyfer buddiannau busnes gwledig. Mae'r gwasanaethau a gyflwynir a'r angen i'r llywodraeth roi cymhorthdal er mwyn i wasanaethau gael eu darparu yn amrywio rhwng ardaloedd gwledig yn ôl yr amgylchiadau lleol (Furuseth, 1998). Mae'r adroddiad hwn yn tueddu i ganolbwyntio ar y trydydd math o wasanaethau, y gwasanaethau gwledig sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd ac a amlygwyd gan adroddiad yr OECD ond mae hefyd yn ystyried gwasanaethau seilwaith a gwasanaethau hwyluso (mathau 1 a 2 uchod) yn nhermau gwasanaethau seilwaith a gwasanaethau cyfathrebu.

Roedd astudiaethau blaenorol ar wasanaethau gwledig gan ymchwilwyr fel Shaw (1979) a Moseley (1979) yn ymwneud yn bennaf ag ymchwilio i'r mathau o ffactorau sy'n penderfynu lefelau'r gwasanaethau a ddarperir mewn ardaloedd gwledig a hygyrchedd neu ddiffyg hygyrchedd ffisegol cyfleusterau o'r fath i grwpiau cymdeithasol. Roedd Shaw (1979) yn gwahaniaethu rhwng tair cydran mewn amddifadedd; sef amddifadedd aelwyd, amddifadedd cyfleoedd ac amddifadedd symudedd. Roedd amddifadedd aelwyd yn deillio o anghydraddoldebau incwm / tai. Er hynny, roedd y ddwy gydran arall yn ymwneud i raddau helaeth â cholli cyfleoedd swyddi / gwasanaethau ac anallu rhai grwpiau mewn ardaloedd gwledig i gael mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Er bod y diffiniad hwn o amddifadedd gwledig wedi'i feirniadu mewn rhai mannau yn sgil y syniad bod ynddo ormod o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau (Bradley et al., 1986), arweiniodd rhesymoli a chanoli ar wasanaethau yn y ddau ddegawd blaenorol at nifer o astudiaethau yn y 1980au a fu'n canolbwyntio ar y perthnasoedd rhwng symudedd a hygyrchedd mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus a oedd yn dirywio. Edrychai'r rhain ar oblygiadau dirywiad yn lefelau'r cyfleoedd ar gyfer, er enghraifft, trafnidiaeth, manwerthu, iechyd a hamdden, a hynny ar raddfa'r gymuned (e.e. Nutley, 1980) a'r aelwyd (e.e. Nutley a Thomas, 1992). Drwy hoelio sylw yn bennaf ar edrych ar bortreadau a oedd yn archwilio patrymau teithio manwl is-grwpiau o'r boblogaeth i amrywiaeth o gyfleusterau, roedd yr ymchwil hon yn amlygu'r problemau a oedd yn wynebu'r adrannau hynny o'r gymuned sydd heb drafnidiaeth breifat (Nutley, 1992; 1996). Mae'r ffactorau hyn yn debyg o gael effaith wahanol ar grwpiau cymdeithasol, ac mae'n debyg mai ar yr oedrannus, yr ifanc, y rhai sy'n methu symud a'r di-waith mewn cymunedau gwledig yr effeithir yn fwyaf. Daeth

llawer o'r canfyddiadau hyn i'r wyneb eto yn yr ymchwil ar ffordd o fyw yn Lloegr (Cloke et al., 1994) a Chymru (Cloke et al., 1995) a fu'n canolbwyntio ar natur anfantais mewn ardaloedd gwledig drwy gyfrwng dulliau ethnograffig. Mae'r astudiaethau hyn, ynghyd â'r proffil uwch a roddwyd i faterion cefn gwlad yn sgil datblygiadau diweddar fel 'argyfwng BSE' a chlwy'r traed a'r genau a'r gwrthdystiadau cyhoeddus gan ffermwyr a thrigolion cefn gwlad a sicrhaodd gyhoeddusrwydd helaeth, er enghraifft ynglyn â chostau uchel tanwydd sy'n effeithio'n drwm ar fusnesau ac unigolion yng nghefn gwlad, wedi ail-ffocysu sylw ar faterion fel anfantais a chreu cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae cwestiwn darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig wedi cadw ei broffil drwy gydol y 1990au ac yn y blynyddoedd diwethaf yn y DU, ac mae'r ffocws wedi bod ar argaeledd gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, fel y'i gwelir yn nhystiolaeth arolygon o wasanaethau gwledig yng Nghymru a Lloegr, ac ar hygyrchedd gwasanaethau neu sectorau allweddol neu hanfodol penodol, er enghraifft, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau addysg (gweler er enghraifft, Lovett, et al 2000). Mae datblygiadau diweddar megis Papur Gwyn Gwledig 2000 a ffurfio Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr, i gyd wedi tanlinellu bod angen rhagor o wybodaeth am faterion a phroblemau gwledig, gyda chyflwyno gwasanaethau a phroblemau wrth gael mynediad i wasanaethau yn elfen allweddol yn hyn.

Cafwyd llawer o waith ymchwil ar gyflwyno gwasanaethau gwledig, yn enwedig gwasanaethau i'r unigolyn neu'r aelwyd (gweler er enghraifft Shucksmith 2004, Asiantaeth Cefn Gwlad, 2004, Higgs, 2003). Mae'r ymchwil honno wedi ymdrin ag amrediad eang o wahanol wasanaethau megis gofal iechyd, manwerthu, trafnidiaeth i deithwyr a phlismona yn ogystal, ar raddfa fwy cyfyngedig, â gwasanaethau seilwaith fel y cyflenwad dwr, nwy, trydan a thelathrebu. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi edrych ar y pwnc o ongl benodol - sef y newid yn hynt canolfannau gwasanaethau mewn pentrefi - gyda'r rhagdybiaeth ymhlyg weithiau y byddai cadw canolfannau o'r fath yn creu effaith gadarnhaol o ran hybu cymunedau gwledig cynaliadwy (Moseley et al, 2006)

Mae tueddiadau yn lleoliad a hyfywedd canolfannau gwasanaethau wedi cael llawer o sylw, er enghraifft yn y cyfrifiad sy'n cael ei gynnal bob tair blynedd yn Lloegr gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad a'i ragflaenydd, y Comisiwn Datblygu Gwledig, (CA, 2001, er enghraifft). Mae astudiaethau o'r fath, sydd wedi'i seilio ar arolygon o'r ddarpariaeth gwasanaethau, wedi'u cynnal yng Nghymru hefyd, yn gyntaf ym 1996 ac yn ail, fel rhan o

raglen waith Arsyllfa Wledig Cymru, yn 2005 (Higgs a White, 2000; Arsyllfa Wledig Cymru, 2005). Mae'r rhain wedi tueddu i ddatgelu gostyngiad cyson mewn llawer o 'wasanaethau pentref' e.e. siopau, tafarnau a swyddfeydd post ac mewn 'gwasanaethau tref fach' fel swyddfeydd heddlu ac ysbytai bach. Yn wir, mae wedi bod yn bur gyffredin gweld llawer o ganolfannau gwasanaethau yn llifo'n raddol 'i fyny'r hierarchaeth drefol' (sef o bentrefi i drefi bach ac o drefi bach i drefi mawr a mannau ar gyrion trefi) - er bod rhai gwasanaethau eraill wedi tueddu i dreiddio'n fwy i gefn gwlad yn y blynyddoedd diwethaf, megis gofal plant a thrafnidiaeth gymunedol sy'n cael ei sbarduno gan y galw (Moseley et al, 2006). Mae defnyddio gwybodaeth o arolygon i bwyso a mesur lefelau'r ddarpariaeth wedi'i feirniadu. Mae defnyddio holiaduron wedi'u hanfon at glercod plwyf (cymuned) fel y gwneir yn arolygon yr Asiantaeth Cefn Gwlad ac arolygon yr Arsyllfa yn agored i'w feirniadu, nid lleiaf am ei bod yn anodd sicrhau cyfradd ymateb o 100% ac oherwydd y goblygiadau ar gyfer dod i gasgliad cynhwysfawr ynglyn â thueddiadau wrth ddarparu gwasanaethau dros amser, o gofio'u natur afreolaidd. Er gwaethaf y problemau methodolegol hyn, mae canfyddiadau o arolygon lleol, o'u defnyddio ar y cyd â gwybodaeth ategol, yn awgrymu bod yna resymoli arwyddocaol ar wasanaethau wedi bod, gan symud i aneddiadau mwy mewn rhai ardaloedd gwledig a bod hyn yn aml yn ymddangos fel pe bai'n annibynnol ar y mathau o ailstrwythuro sosio-economaidd sy'n digwydd mewn ardaloedd felly (CA, 2001; Arsyllfa Wledig Cymru, 2005). Ar sail eu hadolygiad nhw o arolygon o'r fath yn y 1980au, nododd Clark a Woollett (1991) fod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod pentrefi'n parhau i golli siopau bwyd ond nad oedd tueddiadau o'r fath yn gyson o ran lle nac amser. Yn yr un modd, mae'n ymddangos bod cyflymder y colledion o ran is-swyddfeydd post gwledig wedi arafu yng nghanol y 1980au. Yn baradocsaidd, nid yw rhai cymunedau sydd wedi gweld eu poblogaeth yn tyfu wedi gweld lefel y cyfleusterau a/neu drafnidiaeth gyhoeddus yn codi o reidrwydd (e.e. White et al., 1997). Mae hyn wedi'i briodoli gan amryw o bobl i gynnydd mewn mynediad i wasanaethau mewn canolfannau trefol yn sgil cynnydd yn lefelau perchnogaeth ceir yn y blynyddoedd diweddar. O dan amgylchiadau felly, mae rhai grwpiau cymdeithasol, yn enwedig y rhai sydd heb drafnidiaeth breifat, yn aml iawn yn gweld effaith wahanol yn sgil newid yn lefelau'r gwasanaethau a ddarperir (Cloke et al, 1994).

Mae pryder am effeithiau net y tueddiadau hyn wedi canolbwyntio ar eu canlyniadau ar gyfer pobl ddifreintiedig (yn gyffredin y rhai sydd heb gar) ac ar gyfer agweddau ar fywyd cymunedol y mae angen ffocws ffisegol ar eu cyfer (Moseley et al, 2006). Ar yr un pryd,

mae’r gallu i gyflwyno gwasanaethau o lai o ganolfannau, a’r rheiny’n fwy o ran maint ac wedi'u gwasgaru’n ehangach, wedi creu gwelliant yn gyffredinol yn ansawdd y gwasanaeth - cyhyd ag y gellir ei gyrchu’n hwylus. Mae Moseley et al (2006) yn haeru bod cryn dipyn o arloesi wrth gyflwyno gwasanaethau wedi’i weld yn y blynyddoedd diwethaf wrth i ddarparwyr gwasanaethau fynd i’r afael ag amcanion cyferbyniol ansawdd uchel, gwasgariad daearyddol eang a chostau uned isel - a hynny am ei bod yn ymddangos ei bod yn gymharol hawdd cyflawni dau, ond nid tri, o’r dymuniadau hyn (Moseley et al, 2006).

**2.2 Materion Hygyrchedd**

Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio dulliau Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i danlinellu meysydd lle ceir amrywiaeth yn lefelau hygyrchedd gwasanaethau allweddol neu hanfodol (gweler adran 3). Wedyn mae’r dadansoddiad hwn yn bwydo gwaith i ddethol ymatebwyr ar gyfer y gwaith arolygu at y prosiect ymchwil hwn. Yn y fan hon, mae’n ddefnyddiol tynnu sylw at y rhesymeg y tu ôl i ganolbwyntio ar hygyrchedd wrth astudio gwasanaethau gwledig

Mae Penchansky a Thomas (1981) yn nodi pum dimensiwn pwysig mewn mynediad;

- Argaeledd – sy’n diffinio’r cyflenwad gwasanaethau o’i gymharu â’r anghenion – ydy gallu’r gwasanaethau a’r mathau o wasanaethau yn ddigon i fodloni’r angen?
- Hygyrchedd - sy’n disgrifio rhwystrau daearyddol, gan gynnwys pellter, trafnidiaeth, amser teithio, a chost. Mae hyn yn amlygu lleoliad daearyddol y gwasanaethau o’u cymharu â lleoliad y boblogaeth.
- Llety – sy’n dangos i ba raddau y mae’r gwasanaethau wedi’u trefnu i fodloni anghenion y cleientau, gan gynnwys oriau gwaith, gweithdrefnau gwneud cais ac amserau aros
- Fforddiadwyedd - sy’n cyfeirio at bris y gwasanaethau o’i gymharu â gallu pobl i dalu. Mae’n amlwg bod lefelau incwm yn hanfodol yn yr elfen hon
- Derbynioldeb - barn y cleient ar wasanaethau penodol a sut mae’r darparwyr gwasanaethau’n cydadweithio â’r cleientau

O ran GIS, mae’n anorfod mai ar hygyrchedd y mae’r pwyslais - sef y dimensiwn hollol ddaearyddol ar fynediad. Mae mynediad pobl i wasanaethau wedi’i wreiddio ym mhatrymau eu gweithgareddau dyddiol mewn amser ac mewn lle (Cromley a McLafferty,

2002). Bydd cyfyngiadau amser-lle yn chwarae rhan ddylanwadol wrth leddfu ar fynediad i wasanaethau, er enghraifft gofal iechyd. Mae lefelau defnyddio gwasanaethau yn aml wedi'i seilio ar ddewisiadau sy'n ateb yr angen am y gwasanaeth yn y ffordd orau posibl o fewn cyfyngiadau amser-lle bywyd bob dydd. O'u hychwanegu at ei gilydd, mae'r dewisiadau unigol hyn yn ffurfio patrymau gofodol ynglyn â defnyddio gwasanaethau - sef llifoedd pobl drwy leoedd i gyrraedd gwasanaethau penodol.

Un agwedd allweddol ar batrymau defnyddio gwasanaethau yw dirywio yn sgil pellter, neu'r duedd i'r cydadweithio â chyfleusterau ostwng wrth i'r pellter ohonynt gynyddu (gweler Joseph a Bantock, 1984; Cromley a McLafferty, 2002 er enghraifft). Mae dirywio yn sgil pellter yn adlewyrchu'r amser, y gost a'r ymdrech ychwanegol a geir wrth deithio'n bell; wrth i gostau'r unigolyn gynyddu, mae ei barodrwydd i deithio'n gostwng. Mae adnabyddiaeth pobl o gyfleoedd gwasanaethau neu eu cyfarwyddineb â nhw, hefyd yn dirywio gyda phellter, gan waethygu patrwm dirywio yn sgil pellter (Cromley a McLafferty, 2002).

Mae rôl hygyrchedd daearyddol yn lefelau defnyddio gwasanaethau hefyd yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth. Mae pobl yn amrywio o safbwynt eu gallu i oresgyn pellter ac o ran sut mae cyfyngiadau lleoliad yn effeithio ar y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Bydd nodweddion fel oedran, incwm, galwedigaeth a rhywedd yn effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau ac mae'r rhai sydd â chyfyngiadau ar eu symudedd (e.e. drwy incwm isel neu ddiffyg trafnidiaeth) yn fwy sensitif i bellter, ac felly yn debycach o ddefnyddio'r darparwr gwasanaethau agosaf (Cromley a McLafferty, 2002).

*GIS a Mesuriadau Hygyrchedd Posibl*

Mae'r rhan fwyaf o'r ymdrechion i roi polisïau ar waith i wella argaeledd gwasanaethau yn canolbwyntio ar 'hygyrchedd posibl', sef y gyfatebiaeth ddaearyddol rhwng pobl a gwasanaethau hanfodol. Yn y bôn, mae'r cysyniad yn cyfeirio at y gwahaniad rhwng gwasanaethau a'r boblogaeth a'r berthynas ddeinamig a'r ffactorau dylanwadu rhwng y ddau.

Sut bynnag y caiff ei fesur, mae hygyrchedd posibl gwasanaethau wedi'i ddosbarthu'n anwastad o safbwynt gofodol. Mae hyn yn adlewyrchu sut mae'r mwyafrif o wasanaethau'n cael eu darparu: ar safleoedd gosod, gan wasanaethu poblogaeth sydd ar

wasgar - sy'n arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig. Gall GIS fod yn offeryn i edrych ar amrywiadau daearyddol mewn hygyrchedd ac i weld a yw'r gwahaniaethau mewn hygyrchedd yn deillio o fylchau amlwg yn y ddarpariaeth gwasanaethau ynteu wedi'u strwythuro yn ôl amrywiadau cymdeithasol neu ddemograffig (Cromley a McLafferty, 2002). Gellir defnyddio GIS i 'ddelweddu tegwch' ym mhatrymau dosbarthu gwasanaethau (Talen, 1998). Gallai system o'r fath ymgorffori amrywiaeth o fesuriadau hygyrchedd, gan gynnwys pellter teithio cyfartalog a'r boblogaeth y darperir ar ei chyfer. Gallai'r GIS gynhyrchu mapiau o hygyrchedd i'w gweld yn unigol ac i'w cyplysu hefyd â mapiau sy'n dangos dosbarthiad grwpiau poblogaeth, gwerthoedd tai, a nodweddion amgylcheddol (e.e. tirwedd). Wedyn byddai'r mapiau a'r ystadegau'n datgelu'r patrymau gwahanol mewn hygyrchedd (Talen, 1998).

*GIS a Hygyrchedd wedi'i Ddatgelu*

Mae GIS yn offeryn defnyddiol hefyd ar gyfer dadansoddi 'hygyrchedd wedi'i ddatgelu', sef patrymau sy'n dangos sut y defnyddir gwasanaethau. Mae'r patrymau hyn yn deillio'n aml o ddewisiadau ynglyn â ble a phryd i ddefnyddio gwasanaethau, cyfluniad daearyddol cyfleusterau, ac amrywiadau lleol yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir (Cromley a McLafferty, 2002). Gall GIS gael ei defnyddio yn y maes hwn i helpu i roi sylw i nifer o gwestiynau allweddol;

- Beth yw'r ardal farchnad ar gyfer cyfleuster?
- Sut bydd newidiadau wrth gyflwyno gwasanaethau, er enghraifft cau cyfleuster, yn effeithio ar ardaloedd marchnad ac ar y defnyddio a geir ar y gwasanaethau?
- A yw'r gwasanaethau'n cael eu defnyddio ormod neu eu defnyddio rhy ychydig mewn ardaloedd penodol?

Gall ardaloedd marchnad neu ardaloedd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau penodol gael eu mapio mewn GIS, ar sail codau post lleoliadau'r aelwydydd. Er bod y mapiau hyn o ardaloedd gwasanaethau yn ddulliau disgrifio buddiol, nid ydynt yn rhoi sylw i benderfynyddion patrymau defnyddio gwasanaethau, a chyfyngedig felly yw eu gwerth ar gyfer rhagfynegi a chynllunio. Mae Modelau Cydadweithio Gofodol (SIMs) yn ddull defnyddiol ar gyfer edrych ar y cwestiwn 'beth yw effeithiau pellter, maint y cyfleuster a lefel y gwasanaeth ar y defnyddio a geir arno?' (Cromley a McLafferty, 2002) Mae SIMs yn disgrifio ac yn esbonio'r symud neu'r cydadweithio rhwng lleoedd fel ffwythiant i

bellter a ffactorau eraill. Mae'n eglur y gall GIS chwarae rhan bwysig yn nhermau prosesu a rheoli data, a dangos canlyniadau modelau o'r fath ar draws gofod, er mwyn i wahanol batrymau defnyddio neu wahanol batrymau hygyrchedd wedi'i ddatgelu gael eu hadnabod.

**2.3 Y Cyd-destun Polisi Diweddar**

Mae Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000), ar gyfer y cyfnod 2000-2006, yn datgan bod mynediad i wasanaethau lleol fel siop y pentref, tafarn, canolfan gymunedol, meddyg teulu a thrafnidiaeth gyhoeddus yn dirywio i lawer o gymunedau gwledig. Mae'n amlygu'r ffaith bod nifer fach y defnyddwyr gwasanaethau mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth yn golygu mai anaml y ceir lle ar gyfer arbedion graddfa a bod y gwasanaethau ar yr un pryd yn wynebu costau uwch, yn enwedig yn achos trafnidiaeth (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000). Er hynny, mae RDP Cymru'n datgan,

> "It is important to recognise the higher costs of providing accessible rural services, as well as offering support for marginal private and voluntary sector services, so that access to services for people living in rural areas fully meets their needs. It is also important to recognise that rural services are important sources of employment and income in rural communities".
>
> (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000 t.53)

Un ffordd bosibl i wella gwasanaethau gwledig a grybwyllir yn RDP Cymru yw'r cyfle i ehangu ar gyd-drefnu ac integreiddio gwasanaethau gwledig er mwyn defnyddio'r adnoddau i'r eithaf a chodi cymaint ag y gellir ar ansawdd y gwaith i gyflwyno'r gwasanaethau. Gellir cyplysu hyn hefyd â chryfhau'r cydgysylltu a'r cydweithredu rhwng darparwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gynnwys datblygu cyfleusterau cymunedol amlbwrpas a chydleoli gwasanaethau (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000). Mae hyn yn ymddangos yn gall, o gofio problemau cynnal gwasanaethau allweddol neu wasanaethau hanfodol mewn ardaloedd gwledig ond mae hefyd yn awgrymu y bydd polisïau sy'n canoli gwasanaethau, a amlygwyd yn gynharach yn yr adran hon, yn parhau.

Mae RDP Cymru yn tanlinellu hefyd y ffaith bod diffyg darpariaeth gwasanaethau sylfaenol yn cyfyngu ar gyfle'r economi gwledig i ddatblygu'n llawn. Bernir bod gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau yn rhagofyniad er mwyn annog y rhai sy'n fwyaf abl yn


economaidd i weithio, buddsoddi neu sefydlu busnesau yn y Gymru wledig. Mae darpariaeth gwasanaethau wael hefyd yn gyfraniad arwyddocaol at ynysu cymdeithasol mewn llawer o bentrefi (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000).

## Adran Tri: Y fethodoleg


### 3.1 Defnyddio mesuriadau mynediad i ddewis sectorau post yr Arolwg Aelwydydd

Un o nodau allweddol y gwaith ymchwil hwn oedd ail-arolygu aelwydydd o'r arolwg aelwydydd, 'Arolwg o Fyw a Gweithio yn y Gymru Wledig' ('yr Arolwg Aelwydydd' o hyn ymlaen) a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2004 a gytunodd y byddent yn cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil yn y dyfodol. Mae'r adran ganlynol yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd i ddosbarthu'r sectorau codau post yr ailddewiswyd ymatebwyr ohonynt ar sail hygyrchedd posibl gwasanaethau iddynt. Yn yr astudiaeth hon rydym wedi cyfrifo 'isocronau' amser gyrru o bob un o'r gwasanaethau dethol yr oedd data ar gael ar eu cyfer. Wedyn rydym yn dyrannu system sgorio yn nhermau lefelau hygyrchedd pob un o'r gwasanaethau o graidd pob sector cod post y mae gennym ymatebwyr ar eu cyfer o'r Arolwg Aelwydydd uchod. Mae'r adran hon yn manylu ar y dulliau a ddefnyddiwyd wrth ddewis sectorau codau post ac iddynt lefelau gwahanol o hygyrchedd y gellid samplu aelwydydd unigol ohonynt ar gyfer ail arolwg. Y nod oedd sicrhau trawstoriad o sectorau cod post lle ceid lefelau gwahanol o hygyrchedd - da a gwael - y gellid dewis ymatebwyr blaenorol i'r 'Arolwg Aelwydydd' ohonynt a'u hail-arolygu er mwyn cael sampl effeithiol o brofiadau o 'ymdopi â mynediad i wasanaethau'.

Mae'r dadansoddiad hwn ar amserau gyrru yn adeiladu ar waith Christie a Phone (2002), gan ddefnyddio detholiad o wasanaethau yn y Gymru wledig. Y gwasanaethau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi amserau gyrru oedd Fferyllfeydd, Ysgolion Cynradd, Deintyddion, Meddygon a Swyddfeydd post. Mae data wedi'i seilio ar godau post wedi'i gasglu ar gyfer y gwasanaethau allweddol neu hanfodol hyn, gan ganiatáu i amserau gyrru o 5, 10 a 15 munud gael eu mapio.



**Ffigur 3.1 Enghraifft o leoliadau ysgolion cynradd.**




**Ffigur 3.2 Lleoliadau a'r rhwydwaith ffyrdd**

Gan ein bod yn ymdrin â nifer o wasanaethau wrth wneud y dadansoddiad hygyrchedd, ceisiwyd mabwysiadu methodoleg debyg i'r rhai a arddelwyd gan gyrff llywodraeth eraill yn y DU wrth gynnal dadansoddiadau o'r fath. Mae mesuriadau hygyrchedd lluosog yn cael eu cynnwys yn fwyfwy mewn dangosyddion amddifadedd (e.e. y Mynegai Amddifadedd Lluosog, (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005)) ac mae'r llywodraeth ganolog yn dibynnu ar y mesuriadau hyn i ddarparu data manwl-gywir am y profiadau o hygyrchedd a diffyg hygyrchedd mewn mannau penodol.

Mae data am y rhwydwaith ffyrdd ar gyfer Cymru a rhannau o Loegr wedi'i sicrhau drwy ddefnyddio **OS Strategi, 1:250000** oddi wrth Digimap (yr Arolwg Ordnans). Dyrannwyd cyflymder i bob math o ffordd drwy ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan Weithrediaeth yr Alban yn eu hastudiaeth ar gyfer Dosbarthiad Trefol a Gwledig, a seiliwyd ar fynediad i wasanaethau penodol (Gweithrediaeth yr Alban, 2004). Ychwanegwyd at y cyflymderau hyn yn ôl a oedd y ffordd mewn ardal drefol - os felly, ychwanegwyd ffactor ar gyfer tagfeydd at gyflymder ffyrdd trefol. Dynodwyd ardaloedd

trefol drwy ddefnyddio dosbarthiad Ardaloedd Trefol Ystadegau Gwladol 2001 (Ystadegau Gwladol, 2004).

Wedyn cafodd dadansoddiad Amserau Gyrru ei gyflawni ar gyfer pob gwasanaeth. Yn y bôn, roedd hyn yn golygu dod o hyd i ardaloedd o amgylch pob gwasanaeth a allai gael eu cyrchu drwy ddefnyddio'r rhwydwaith ffyrdd mewn cyfnodau penodedig o amser. Wedyn cyfrifwyd amser teithio ar hyd y rhwydwaith o 5, 10 a 15 munud, i bob gwasanaeth. Dangosir pob map o hygyrchedd amser teithio i'r gwasanaethau a ddadansoddwyd yn Atodiad Un i'r adroddiad hwn. Mae'n eglur mai gwasanaethau gofal iechyd, megis deintyddion (yn enwedig) a meddygon yw'r lleiaf hygyrch mewn rhannau mawr o'r Gymru wledig (o ran yr ardal yr ymdrinnir â hi) gan eu bod yn fwy na 15 munud o amser teithio o'r gwasanaethau hyn. Mae swyddfeydd post ac ysgolion cynradd yn llawer mwy cyffredin ond hyd yn oed yma mae rhannau mawr o'r Gymru wledig sy'n fwy na 10 munud o wasanaethau o'r fath.




**Ffigur 3.3 Enghraifft o bolygonau a grëwyd o'r dadansoddiad amserau gyrru**

Mae'n bwysig nodi'r boblogaeth yr effeithir arni gan y gwahanol lefelau hygyrchedd hyn, a'r ffordd orau i edrych ar hyn yw ar ffurf tabl, fel y gwelir yn Nhabl 3.1 ac ar ffurf canrannau yn Nhabl 3.2. Mae'r tablau'n dangos nifer y bobl ym mhob un o'r categorïau amser gyrru (5, 10 a 15 munud) ac, yn Nhabl 3.2, y ffigurau canrannol. Mae'n eglur bod

yr ardaloedd mwyaf gwledig (pentrefannau a phentrefi tenau a llai tenau eu poblogaeth, er enghraifft) yn cynnwys canrannau pur fach o bobl yn y cyfnod amser gyrru isaf (5 munud); mae deintyddion yn enghraifft dda o hyn (Tabl 3.2).

Tabl 3.1: Poblogaeth yn y Cyfnodau Amser Gyrru ar gyfer y Pum Gwasanaeth Dethol (wedi'u hisrannu yn ôl nodweddion yr anheddiad)

| | | **Ysgol Gynradd** | | | **Swyddfa Bost** | | | **Fferyllfa** | | | **Meddyg** | | | **Deintydd** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | |
| | **Cyfanswm y Boblogaeth** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** |
| Pentrefannau ac Aneddiadau Unig – Llai Tenau | 93,399 | 78225 | 91723 | 93399 | 84423 | 92741 | 93399 | 50076 | 79190 | 90501 | 47870 | 82712 | 91427 | 44624 | 77450 | 90743 |
| Pentrefannau ac Aneddiadau Unig – Tenau | 122,062 | 89666 | 119277 | 121805 | 109157 | 121251 | 122062 | 25302 | 71261 | 102245 | 20577 | 72348 | 102411 | 21668 | 59585 | 94351 |
| Trefi a'r Cyrion – Llai Tenau | 371,674 | 371069 | 371674 | 371674 | 371674 | 371674 | 371674 | 344183 | 370310 | 371674 | 333112 | 371337 | 371674 | 317862 | 370015 | 371674 |
| Trefi a'r Cyrion – Tenau | 96,166 | 95909 | 95909 | 95909 | 96166 | 96166 | 96166 | 95384 | 95909 | 95909 | 84655 | 91025 | 95909 | 83764 | 87949 | 95663 |
| Trefol >10K – Llai Tenau | 1,809,829 | 1809204 | 1809829 | 1809829 | 1809829 | 1809829 | 1809829 | 1803863 | 1809829 | 1809829 | 1787469 | 1809829 | 1809829 | 1779176 | 1809829 | 1809829 |
| Trefol >10k - Tenau | 56,160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 | 56160 |
| Pentref – Llai Tenau | 202,845 | 190357 | 202384 | 202845 | 198505 | 202845 | 202845 | 114367 | 189101 | 201876 | 107712 | 185448 | 201876 | 91135 | 177683 | 199658 |
| Pentref - Tenau | 150,950 | 142785 | 150758 | 150950 | 150615 | 150548 | 150950 | 64898 | 117326 | 143387 | 56309 | 117059 | 141906 | 47900 | 97874 | 135056 |
| **Cyfanswm Cymru** | **2,903,085** | **2833375** | **2897714** | **2902571** | **2876529** | **2901214** | **2903085** | **2554233** | **2789086** | **2871581** | **2493864** | **2785918** | **2871192** | **2442289** | **2736545** | **2853134** |


Tabl 3.2 : Canran y Boblogaeth yn y Cyfnodau Amser Gyrru ar gyfer y Pum Gwasanaeth Dethol (wedi'u hisrannu yn ôl nodweddion yr anheddiad)

| | | **Ysgol Gynradd** | | | **Swyddfa Bost** | | | **Fferyllfa** | | | **Meddyg** | | | **Deintydd** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | | Amserau gyrru | | |
| | **Cyfanswm y Boblogaeth** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** | **5** | **10** | **15** |
| Pentrefannau ac Aneddiadau Unig – Llai Tenau | 93,399 | 83.75 | 98.21 | 100.00 | 90.39 | 99.30 | 100.00 | 53.62 | 84.79 | 96.90 | 51.25 | 88.56 | 97.89 | 47.78 | 82.92 | 97.16 |
| Pentrefannau ac Aneddiadau Unig – Tenau | 122,062 | 73.46 | 97.72 | 99.79 | 89.43 | 99.34 | 100.00 | 20.73 | 58.38 | 83.76 | 16.86 | 59.27 | 83.90 | 17.75 | 48.82 | 77.30 |
| Trefi a'r Cyrion – Llai Tenau | 371,674 | 99.84 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 92.60 | 99.63 | 100.00 | 89.62 | 99.91 | 100.00 | 85.52 | 99.55 | 100.00 |
| Trefi a'r Cyrion – Tenau | 96,166 | 99.73 | 99.73 | 99.73 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 99.19 | 99.73 | 99.73 | 88.03 | 94.65 | 99.73 | 87.10 | 91.46 | 99.48 |
| Trefol >10K – Llai Tenau | 1,809,829 | 99.97 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 99.67 | 100.00 | 100.00 | 98.76 | 100.00 | 100.00 | 98.31 | 100.00 | 100.00 |
| Trefol >10k - Tenau | 56,160 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 | 100.00 |
| Pentref – Llai Tenau | 202,845 | 93.84 | 99.77 | 100.00 | 97.86 | 100.00 | 100.00 | 56.38 | 93.22 | 99.52 | 53.10 | 91.42 | 99.52 | 44.93 | 87.60 | 98.43 |
| Pentref - Tenau | 150,950 | 94.59 | 99.87 | 100.00 | 99.78 | 99.73 | 100.00 | 42.99 | 77.73 | 94.99 | 37.30 | 77.55 | 94.01 | 31.73 | 64.84 | 89.47 |
| **Cyfanswm Cymru** | **2,903,085** | **97.60** | **99.81** | **99.98** | **99.09** | **99.94** | **100.00** | **87.98** | **96.07** | **98.91** | **85.90** | **95.96** | **98.90** | **84.13** | **94.26** | **98.28** |

Er mwyn dosbarthu sectorau codau post yr 'Arolwg Aelwydydd' i'w defnyddio wrth samplu aelwydydd i'w cynnwys wrth ddadansoddi'r holiaduron, cafodd creiddiau (sef pwynt canol polygon) eu creu i bob sector post yng Nghymru. Wedyn rhoddwyd gwerth i'r pwyntiau hyn yn dibynnu ar ba bolygon Amser Gyrru y syrthient iddo ar gyfer pob gwasanaeth penodol.

- Amser gyrru yn yr ardal 5 munud = 1
- Amser gyrru yn yr ardal 5 i 10 munud = 2
- Amser gyrru yn y rhanbarth 10 i 15 munud = 3
- Amser gyrru dros 15 munud = 4

Cafodd y cyfrifiad hwn ei wneud ar gyfer pob craidd a phob gwasanaeth. Wedyn adiwyd cyfansymiau'r sgoriau. Mae'r sgoriau uchaf (20) yn cynrychioli sectorau codau post sydd o fewn y categori amser gyrru 15 munud a throsodd ar gyfer yr holl wasanaethau a ddadansoddwyd ac mae'r sgoriau isaf ar gyfer sectorau codau post yn dangos bod hygyrchedd rhai (neu'r cyfan) o'r gwasanaethau yn gymharol dda. Cyflawnwyd y dadansoddiad hwn ar gyfer pob sector cod post yng Nghymru, fel y tanlinellir yn Ffigur 3.4 ond wedyn roedd hynny'n caniatáu inni hoelio sylw ar y sectorau codau post hynny a oedd yn cynnwys ymatebwyr i'r 'Arolwg Aelwydydd'.




**Ffigur 3.4: Sgôr Hygyrchedd Gyfartalog wedi'i seilio ar y Sector Post**

Wedyn cyfrifwyd ymatebwyr yr 'Arolwg Aelwydydd' ym mhob categori a dangosir y rhain yn Nhabl 3.1 isod (Sylwer: dim ond y sectorau post sy'n cynnwys ymatebwyr i'r 'Arolwg Aelwydydd' sydd wedi'u defnyddio).

Tabl 3.3: Nifer yr ymatebwyr i Arolwg Aelwydydd NOP ar gyfer pob sgôr hygyrchedd a'r ymatebion a oedd yn fodlon cael eu defnyddio mewn arolygon yn y dyfodol.

| Sgôr | Nifer ymatebwyr NOP |
|---|---|
| 5 | 1595 |
| 6 | 367 |
| 7 | 249 |
| 8 | 395 |
| 9 | 333 |
| 10 | 248 |
| 11 | 291 |
| 12 | 108 |
| 13 | 87 |
| 14 | 106 |
| 15 | 39 |
| 16 | 69 |
| 17 | 7 |
| 20 | 3 |

| Sgôr | Nifer ymatebwyr NOP a oedd yn fodlon derbyn cysylltiadau eto |
|---|---|
| 5 | 1047 |
| 6 | 249 |
| 7 | 179 |
| 8 | 247 |
| 9 | 218 |
| 10 | 172 |
| 11 | 176 |
| 12 | 52 |
| 13 | 57 |
| 14 | 71 |
| 15 | 25 |
| 16 | 42 |
| 17 | 5 |
| 20 | 1 |

Yna cafodd y tablau hyn eu defnyddio i ddewis ymatebwyr o fewn bandiau hygyrchedd penodol wedi'i seilio ar y pum gwasanaeth a ddefnyddiwyd. Dangosir dosbarthiad yr ymatebwyr wedi'i seilio ar wybodaeth am godau post yr ymatebwyr yn Atodiad Dau i'r adroddiad hwn.

Mae'r tabl canlynol yn cyfeirio at ymatebwyr i'r arolwg cyfredol ar strategaethau ymdopi yn nhermau mynediad i wasanaethau ac mae'n categoreiddio'r ymatebwyr hynny yn dri phrif grwp

Tabl 3.4: Cyfran yr ymatebwyr yn y pedair 'ardal hygyrchedd' sy'n byw mewn trefi, pentrefi a chefn gwlad agored

| | **Llai na 5 munud** | **5-10 munud** | **10-15 munud** | **Dros 15 munud** |
|---|---|---|---|---|
| **Tref** | 62% | 22% | 20% | 28% |
| **Pentref** | 28% | 58% | 50% | 38% |
| **Cefn gwlad agored** | 10% | 20% | 30% | 34% |

Yn ôl diffiniad yr ymatebwyr eu hunain o'r math o le y maent yn byw ynddo, mae trigolion sy'n byw mewn ardaloedd sydd wedi'u categoreiddio fel y rhai 'mwyaf hygyrch' (Grwp 1) yn debycach o fod yn byw mewn trefi. O'r rhai sy'n byw mewn cefn gwlad

agored, mae'r ymatebwyr yn fwyaf tebyg o fod yn byw yn yr ardaloedd lleiaf hygyrch (Grwp 4), er bod 32% o'r bobl hyn yn byw mewn mannau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai cymharol hygyrch (Grwpiau 1 a 2).

**3.2 Dylunio'r holiadur**

Roedd prif gyfnod empirig y prosiect hwn yn cynnwys holiadur ffôn gyda thrigolion yn y Gymru wledig. Ceisiodd yr arolwg ddod o hyd i batrymau a thueddiadau ynglyn â mynediad i wasanaethau ar draws y Gymru wledig, a hynny o safbwynt trigolion cefn gwlad. Nodau penodol yr arolwg oedd casglu data am y canlynol:

- Patrymau mynediad i amrywiaeth o wasanaethau
- Lefelau boddhad ar wasanaethau
- Y dylanwadau mawr ar batrymau mynediad, gan gynnwys gwledigrwydd, daearyddiaeth, oedran a rhywedd
- Y strategaethau ymdopi a ddefnyddir gan y rhai sy'n cael anawsterau wrth gael mynediad i wasanaethau.

Rhoddwyd yr holiadur i 200 o ymatebwyr sy'n byw ar hyn o bryd yn y Gymru wledig. Cafodd yr unigolion eu dethol o'r gronfa ddata o ymatebwyr a gwblhaodd Arolwg yr Arsyllfa o Fyw a Gweithio yn y Gymru wledig yng ngwanwyn 2004 ac a ddywedodd bryd hynny y byddent yn fodlon i'r Arsyllfa gysylltu â nhw eto.

Lluniwyd ffrâm samplu ymhlith yr ymatebwyr posibl. Rhoddwyd sgôr hygyrchedd i'r cysylltiadau, o 1 i 20, yn ôl eu preswylfa. Mae'r sgoriau isaf yn dangos rhannau o'r Gymru wledig lle ceir gwell mynediad i wasanaethau ac mae'r sgoriau uchaf yn awgrymu lleoliadau sy'n llai hygyrch o safbwynt sicrhau detholiad o wasanaethau yn unol â'r manylion yn adran 3.1. Ar sail y cyfrifiadau hyn, cafodd pedwar grwp eu creu (gweler tabl 3.2). Mae Grwp 1 yn cynnwys ymatebwyr o'r ardaloedd a sgoriodd rhwng 1 a 5 ar y raddfa, mae Grwp 2 yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd a sgoriodd rhwng 6 a 9, mae Grwp 3 yn cynnwys sgoriau hygyrchedd rhwng 10 a 13 ac mae Grwp 4 yn cynrychioli'r ardaloedd lle ceir y mynediad gwaethaf: sgoriau rhwng 14 ac 20.

Tabl 3.5 Grwpiau hygyrchedd

| | | Sgôr hygyrchedd | Nifer yr ymatebwyr posibl | Nifer yr ymatebwyr mewn gwirionedd |
|---|---|---|---|---|
| Yr ardaloedd mwyaf hygyrch | Grwp 1 | 1 – 5 | 1047 | 50 |
| | Grwp 2 | 6 - 9 | 893 | 50 |
| Yr ardaloedd lleiaf hygyrch | Grwp 3 | 10 - 13 | 457 | 50 |
| | Grwp 4 | 14 -20 | 144 | 50 |

Cwblhawyd nifer cyfartal o holiaduron (hanner cant) gan ymatebwyr o bob un o'r pedwar grwp. Defnyddiwyd rhagor o feini prawf er mwyn sicrhau bod proffil demograffig y boblogaeth a fyddai'n cymryd rhan yn yr arolwg yn adlewyrchu poblogaeth y Gymru wledig i raddau helaeth, a thrwy samplu cwotâu fe sicrhawyd bod y ddemograffeg hon wedi'i hystyried yn y sampl. Pennwyd na châi mwy na 40% o'r ymatebwyr fod yn 65 oed neu drosodd a bod rhaid i chwarter o leiaf fod â phlant 18 oed neu lai yn byw gyda nhw. Heblaw'r newidynnau hyn, cafodd yr ymatebwyr posibl eu ffonio ar hap.

Defnyddiwyd holiadur peilot gyda thrigolion gwledig a ddewiswyd ar y sail bod ganddynt nodweddion sosio-ddemograffig amrywiol. Wedyn cafodd yr holiadur ei ddiwygio a chynhaliwyd yr holiadur terfynol dros y ffôn rhwng 1 a 17 Mawrth 2006. Roedd yr holiadur yn para rhwng 10 ac 20 munud.

Roedd y cwestiynau'n ymwneud ag amrediad o wasanaethau, sef: trafnidiaeth gyhoeddus, siopau bwyd, siopau dillad, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, swyddfeydd post, banciau a chymdeithasau adeiladu, ysgolion, meddygfeydd, deintyddion a fferyllfeydd. Yn ychwanegol, cafwyd cwestiynau a oedd yn ceisio sicrhau rhywfaint o ddata demograffig a sosio-economaidd sylfaenol am yr ymatebydd. Roedd y mwyafrif o'r cwestiynau'n cyfeirio at yr unigolyn oedd yn cael ei holi, er bod rhai yn cyfeirio at aelodau eraill o'r aelwyd neu at yr aelwyd gyfan. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 3.

### 3.3 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae'n bwysig nodi bod mynediad i wasanaethau yn cael ei ystyried ym mynegeion Llywodraeth Cynulliad Cymru o amddifadedd, gan ffurfio cydran o fynegai cyfansawdd o amddifadedd ar gyfer y wlad. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 (WIMD 2005) yn fesur o amddifadedd lluosog ar lefel yr ardal uwch-allbwn. Mae'r model o

amddifadedd lluosog sy'n sail i WIMD 2005 wedi'i seilio ar y syniad bod yna ddimensiynau neilltuol mewn amddifadedd a all gael eu hadnabod a'u mesur ar wahân. Gall pobl gael eu cyfrif fel rhai sy'n amddifad mewn un neu fwy o'r peuoedd, yn ôl y nifer o fathau o amddifadedd y maent yn eu profi (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005).

Mae pau Mynediad Daearyddol i Wasanaethau yn WIMD 2005 yn edrych ar 'nodweddion ardaloedd', sef yr agweddau hynny ar fynediad a allai arwain y sylwedydd i gasglu bod ardal "wedi'i hamddifadu o fynediad", beth bynnag fo nodweddion yr aelwydydd unigol yn yr ardal. Mewn geiriau eraill, mae'r dangosyddion hyn wedi'u seilio ar nodweddion yr ardal yn ei chrynswth, a lleoliad yr aelwydydd a'r gwasanaethau; ni allent gael eu llunio ar sail nodweddion yr unigolion neu'r aelwydydd yn yr ardal. Nid yw'n dderbyniol i'r tlawd a phobl eraill sy'n amddifad o'r cyfle i ddefnyddio car, boed mewn dinas neu bentref, mai dim ond i'r rhai sydd â thrafnidiaeth breifat y mae gwasanaeth ar gael. Gan mai diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yw'r prif rwystr mae'n debyg sy'n atal mynediad i wasanaethau ar gyfer y tlawd a'r hawdd ei niweidio, mae WIMD 2005 yn defnyddio mesur o fynediad i wasanaethau drwy drafnidiaeth gyhoeddus a / neu ar droed er mwyn cymryd pryderon o'r fath i ystyriaeth.

Mesuriadau priodol ar gyfer y bau 'Mynediad i Wasanaethau drwy Drafnidiaeth Gyhoeddus' fyddai cyfran y trigolion yn yr ardal sy'n methu â chyrraedd gwasanaethau lleol allweddol naill ai ar droed neu ar drafnidiaeth gyhoeddus o fewn amser rhesymol. Mae WIMD 2005 wedi dadansoddi mynediad fel hyn ar gyfer saith o wasanaethau: ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, meddygfeydd, swyddfeydd post, canolfannau hamdden, siopau bwyd, a llyfrgelloedd. Ceir mapiau mynediad ar gyfer y gwasanaethau unigol hyn yn Atodiad Pedwar (Mapiau App 4.3 i App 4.9). Mae sgoriau unigol y mapiau hyn yn cyfeirio at y ganran o'r boblogaeth a all gyrraedd gwasanaeth mewn amser penodedig (sy'n wahanol yn achos pob un o'r gwasanaethau). Mae mapiau App 4.1 ac App 4.2 yn Atodiad Pedwar yn dangos sgoriau cyfun yr holl wasanaethau sy'n ffurfio'r allbwn ar gyfer pau Mynediad Daearyddol WIMD 2005 (mae map App 4.2 yn gosod pob un o'r ardaloedd uwch-allbwn isaf yn eu trefn o ran y lleiaf a'r mwyaf amddifad yn nhermau'r bau hon).

Mae i'r math hwn o fesuriad lawer o fanteision; er enghraifft mae

- yn hawdd ei ddisgrifio
- yn gronnol, hynny yw, mae pobl sy'n methu cyrraedd dau o'r gwasanaethau lleol allweddol yn waeth eu byd na'r rhai sy'n methu cyrraedd un yn unig

- yn cynnwys y pellter ar y ffordd mewn modd sy'n ystyrlon ar gyfer amddifadedd, sef amser y siwrnai i'r rhai sydd ar droed neu sydd ar drafnidiaeth gyhoeddus
- yn gallu caniatáu ar gyfer rhwystrau ffisegol megis traffordd sy'n atal mynediad ar droed
- yn nodwedd ardal nad yw'n cael ei fesur mewn peuoedd eraill, ond sy'n effeithio ar y rhai sy'n amddifad mewn peuoedd eraill
- wedi'i fodelu gan yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer dangosyddion hygyrchedd mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, ac yn y feddalwedd sy'n cael ei dosbarthu i bob awdurdod cynllunio trafnidiaeth yn Lloegr
- yn defnyddio data lleol go iawn (mapiau o gyfeiriadau preswyl, pwyntiau gwasanaeth, llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau ffyrdd) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005).

Y cysyniad cyffredinol yn WIMD 2005 yw bod gwahanol ddimensiynau amddifadedd, er enghraifft tai, cyflogaeth, mynediad daearyddol etc, wedi'u hagregu ar lefel ardaloedd wedi'u pwysoli. Mae is-grwpiau o arbenigwyr ar y peuoedd wedi'u sefydlu yn rhan o drefniadau llywodraethu'r prosiect ar gyfer WIMD 2005, er mwyn:

- Trafod a chytuno ar y dangosyddion arfaethedig yn eu pau, gan gynnwys datblygu unrhyw ddangosyddion newydd;
- Sicrhau bod pob dangosydd yn cael ei brofi a bod yr arbenigwyr yn cadarnhau ei fod yn addas at ei ddiben;
- Cynhyrchu canllawiau technegol am y dangosyddion a ddewiswyd; a
- Rhoi adroddiadau rheolaidd am y cynnydd i'r Grwp Llywio Rheoli Data (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005)

Gan hynny, proses barhaus yw WIMD, a phroses sy'n anelu at ymgorffori dangosyddion newydd a rhagor o ymchwil ar y peuoedd allweddol, gan gynnwys mynediad daearyddol. Er nad yw'r adroddiad hwn yn datblygu rhagor o ddangosyddion ar gyfer hygyrchedd gwasanaethau, mae'n anelu at gynnig golwg ar sut y bydd pobl mewn ardaloedd gwledig yn ymdopi â mynediad gwael i amrediad o wahanol wasanaethau. Mae'r deunyddiau hyn, sy'n ansoddol yn bennaf, yn ddefnyddiol wrth fwydo gwaith grwpiau llywio WIMD wrth iddynt benderfynu pa ddangosyddion y mae eu hangen i gynrychioli'r problemau a amlygir drwy waith ymchwil o'r math hwn.

## Adran Pedwar: Ymchwil Flaenorol ar Wasanaethau mewn Ardaloedd Gwledig gan Arsyllfa Wledig Cymru

### 4.1 Canlyniadau'r Arolwg o Fyw a Gweithio yn y Gymru Wledig

Mae'r adran hon yn cyflwyno data o'r *Arolwg o Fyw a Gweithio yn y Gymru Wledig* (2004) gan Arsyllfa Wledig Cymru ynglyn â pha mor hawdd neu anodd yw hi i bobl gyrchu gwasanaethau allweddol neu hanfodol. Mae'r canlyniadau'n datgelu y bernir bod mynediad i wasanaethau yn broblem sylfaenol yn y Gymru wledig. Mae dros hanner yr holl ymatebwyr yn credu bod y 'mwyafrif' neu 'rai' pobl yn wynebau anawsterau i gael mynediad i wasanaethau iechyd, siopau a chyfleusterau hamdden. Mae'r adrannau canlynol yn nodi profiadau go iawn pobl wrth gyrraedd gwasanaethau a'u hargraffiadau nhw am ansawdd y gwasanaethau yn eu hardal leol.

#### 4.1.1 Ansawdd gwasanaethau

Mae gan y mwyafrif o'r trigolion yn y Gymru wledig brofiadau cadarnhaol o ansawdd y gwasanaethau lleol (cf. Tabl 4.1). Roedd mwy na dau draean o'r ymatebwyr yn credu bod safon swyddfeydd post, gwasanaethau'r GIG, banciau a chymdeithasau adeiladu, ysgolion a siopau bwyd yn eu hardal yn 'dda' at ei gilydd. Mae cyfran ychydig yn is - dros draean o'r ymatebwyr - o'r farn bod ansawdd cyfleusterau hamdden, canolfannau cymunedol, plismona a thrafnidiaeth gyhoeddus yn 'dda'. Er gwaethaf yr argraffiadau cadarnhaol hyn ymhlith y mwyafrif o'r ymatebwyr, mae cyfran arwyddocaol o'r farn nad yw ansawdd y gwasanaethau yn dda. Bernir bod trafnidiaeth gyhoeddus yn 'wael' gan chwarter yr ymatebwyr ac mae 18% yn barnu bod y plismona yn 'wael'.

Tabl 4.1: Argraff yr ymatebwyr o'r gwasanaethau allweddol neu hanfodol

| | **Ansawdd y gwasanaeth (% o'r ymatebwyr)** | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | Da | Gweddol | Gwael |
| Ysgolion | 68.7 | 12.9 | 2.8 |
| Siopau bwyd | 67.8 | 23.8 | 6.9 |
| Canolfan gymunedol | 47.1 | 20.4 | 7.5 |
| GIG | 70.2 | 20.3 | 7.7 |
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 69.6 | 17.6 | 8.4 |
| Swyddfa bost | 81.0 | 13.2 | 14.1 |
| Cyfleusterau hamdden | 49.6 | 24.1 | 15.0 |
| Plismona | 39.9 | 34.6 | 18.4 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 35.1 | 28.0 | 25.2 |

Mae'r ffigurau hyn yn rhoi syniad bras o lefelau'r boddhad ar y gwasanaethau. Er hynny, mae'r sail ar gyfer mesur 'ansawdd' a'r gwerthoedd a briodolir i 'da', 'gweddol' a 'gwael' yn amrywio'n sylweddol ymhlith yr ymatebwyr. Bydd lefelau defnyddio pobl a'u dibyniaeth ar wasanaethau yn effeithio ar eu hasesiad o ansawdd. Mewn rhai achosion, mae unigolion yn rhoi sgoriau ar sail eu hargraff o wasanaethau penodol, tra bydd eraill yn cyfeirio at eu profiad gwirioneddol o'r gwasanaethau hynny fel defnyddwyr rheolaidd.

### 4.1.2 Mynediad i wasanaethau

Nid yw'r mwyafrif o drigolion cefn gwlad yn ei chael yn anodd cyrchu gwasanaethau lleol (gweler tabl 4.2). Mae mwy na phedair rhan o bump yn dweud eu bod nhw, neu aelod arall o'r aelwyd, yn cael anhawster wrth gyrchu gwasanaeth. Mae 15% yn sôn am anawsterau wrth gyrraedd rhwng dau a phedwar o wasanaethau, ac mae 4% yn wynebu problemau wrth gyrraedd rhwng pump ac un ar ddeg o'r un ar ddeg o wasanaethau hanfodol yr edrychwyd arnynt.

Tabl 4.2 Y ganran o'r ymatebwyr sy'n cael anhawster wrth gyrchu mwy nag un gwasanaeth

| **Anhawster wrth gyrchu:** | % |
|---|---|
| 1 gwasanaeth neu lai | 80.8 |
| Rhwng 2 a 4 o wasanaethau | 14.9 |
| Rhwng 5 a 7 o wasanaethau | 2.8 |
| Rhwng 8 ac 11 o wasanaethau | 1.5 |

Mae rhai gwasanaethau yn anos na'i gilydd i drigolion cefn gwlad eu cyrchu. Y problemau mwyaf cyffredin y sonnir amdanynt yw cyrraedd deintydd (18% o'r ymatebwyr), sinemâu (18%), ysbytai (13%), swyddfeydd heddlu (12%) a chanolfannau hamdden (10%).

Mae ymatebwyr o aelwydydd isel eu hincwm yn debycach nag ymatebwyr o aelwydydd cyfoethocach o gael anawsterau wrth gyrraedd ysbyty cyffredinol, uwchfarchnad neu siop fwyd arall, fel y gwelir yn Nhabl 4.3. Maent yn debycach hefyd o gael anhawster wrth gyrraedd gwasanaethau eraill, er nad yw'r gwahaniaeth mor amlwg. Mae'r un cydberthyniad i'w weld rhwng cyrchu'r gwasanaethau hyn a dosbarth cymdeithasol yr ymatebwyr.

Tabl 4.3: Ymatebwyr sy'n cael anhawster wrth gyrchu gwasanaethau, yn ôl incwm yr aelwyd

| | | **% sy'n cael anhawster, yn ôl incwm** | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **% yn cael anhawster** | Incwm yr aelwyd yn llai na £10,000 y flwyddyn | Incwm yr aelwyd yn fwy na £31,000 y flwyddyn |
| Sinema | 17.8 | 18 | 16 |
| Deintyddfa | 17.6 | 19 | 17 |
| Ysbyty cyffredinol | 13.1 | 17 | 9 |
| Swyddfa heddlu | 11.5 | 12 | 11 |
| Canolfan hamdden | 10.4 | 12 | 9 |
| Banc / cymdeithas adeiladu | 9.3 | 11 | 8 |
| Clwb cymdeithasol | 6.5 | 7 | 6 |
| Safle bysiau | 6.4 | 6 | 7 |
| Meddygfa | 6.3 | 9 | 4 |
| Uwchfarchnad | 6.2 | 10 | 3 |
| Pwynt codi arian (ATM) | 6.1 | 8 | 4 |

Mae'r problemau mynediad yn amrywio ar draws y Gymru wledig. Roedd ymatebwyr o bentrefi, pentrefannau a chefn gwlad agored yn debycach o'i chael yn anodd cyrraedd gwasanaethau allweddol neu hanfodol nag ymatebwyr o drefi gwledig. Mae'r gwahaniaethau mwyaf, yn ôl math o anheddiad, yn ymwneud â chyrraedd safle bysiau, swyddfeydd heddlu, cyfleusterau bancio, gorsafoedd petrol, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd cyhoeddus. Gweler tabl 4.4, isod.

Tabl 4.4: Anhawster wrth gyrchu gwasanaethau, yn ôl y math o anheddiad

| | | **% sy'n cael anhawster, yn ôl y math o gefn gwlad (ardal wedi'i hunan-ddiffinio)** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **% yn cael anhawster** | Tref | Pentref mawr neu fach | Pentrefan neu gefn gwlad agored |
| Safle bysiau | 6 | 4 | 5 | 16 |
| Swyddfa heddlu | 11 | 7 | 14 | 12 |
| Banc neu gymdeithas adeiladu | 9 | 5 | 14 | 11 |
| Pwynt codi arian (ATM) | 6 | 3 | 8 | 8 |
| Canolfan hamdden | 10 | 7 | 12 | 12 |
| Tafarn | 3 | 2 | 2 | 5 |
| Clwb cymdeithasol | 7 | 4 | 7 | 9 |
| Gorsaf betrol | 5 | 2 | 6 | 9 |
| Llyfrgell (gan gynnwys llyfrgell symudol) | 4 | 3 | 4 | 6 |
| Modurdy i drwsio car, etc | 5 | 3 | 6 | 6 |

### 4.1.3 Trafnidiaeth

Nid yw 11% o'r aelwydydd yn berchen ar gerbyd modur neu'n cael defnyddio un. Mae 5% arall o'r aelwydydd yn yr arolwg yn cynnwys trigolion 17 oed neu drosodd sydd heb gyfle i ddefnyddio cerbyd preifat yn ystod y dydd. Mae'r aelwydydd hyn yn tueddu i fod ar incwm is - mae 32% o'r aelwydydd sydd ag incwm blynyddol gros o lai na £10,000 heb gyfle i ddefnyddio car, o'i gymharu ag ychydig dros 2% o'r aelwydydd sydd ag incwm blynyddol gros o £21,000 neu fwy. Mae aelwydydd uchel eu hincwm yn llawer tebycach o fod â mwy nag un car ar gael. Mae oedran hefyd yn ffactor sy'n effeithio ar fynediad i drafnidiaeth breifat. Mae ymatebwyr 65 a throsodd fwy na dwywaith yn debycach na phobl iau o fod heb gyfle i ddefnyddio car. Felly, gall oedran ac incwm isel waethygu ei gilydd wrth beri bod mynediad i wasanaethau yn anodd.

Mae argraff yr ymatebwyr o ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus yn arwyddocaol o wahanol ymhlith yr aelwydydd sy'n cael defnyddio car, o'u cymharu â'r aelwydydd sydd heb gerbyd preifat. Mae'r canlyniadau (fel y'u gwelir yn Nhabl 4.5) yn datgelu bod ymatebwyr o aelwydydd sy'n cael defnyddio car yn debycach o gredu bod ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus yn 'wael' nag ymatebwyr o aelwydydd sydd heb gerbyd preifat. Mae 53% o'r ymatebwyr sy'n byw ar aelwydydd heb gyfle i ddefnyddio car o'r farn bod trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal leol yn 'dda' o'u cymharu â 38% o'r rhai sy'n byw ar aelwydydd y mae car ganddynt.

Gellir priodoli tueddiadau o'r fath i amrywiaeth o ffactorau. Yn gyntaf, fel yr awgrymir uchod, mae *profiad* y rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn gyson - y gellir tybio eu bod yn aelwydydd heb gerbyd - yn fwy ffafriol na'r *argraff* o drafnidiaeth gyhoeddus sydd gan y rhai nad ydynt yn ei defnyddio. Ail esboniad posibl yw bod y rhai sy'n dweud bod trafnidiaeth gyhoeddus eu hardal yn 'wael' yn gorfod meddu ar gar er mwyn sicrhau eu bod yn gallu symud o gwmpas yn ddigonol. Trydydd awgrym yw bod perchnogion ceir wedi arfer â lefel uchel o symudedd, ac felly fod eu disgwyliadau ynglyn â darpariaeth trafnidiaeth yn uwch.

Tabl 4.5 Ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus, yn ôl ymatebwyr o aelwydydd y mae car ganddynt ac sydd heb gar

| | Ymatebwyr o aelwydydd **sydd** â mynediad i gar | Ymatebwyr i aelwydydd **sydd heb** fynediad i gar |
|---|---|---|
| **Gwael** | 29.7 | 19.3 |
| **Gweddol** | 32.3 | 27.9 |
| **Da** | 38.0 | 52.8 |

Ychydig yn unig o wahaniaeth sydd rhwng yr argraff a geir o ansawdd gwasanaethau eraill ar sail perchnogaeth ceir. Mae cyfrannau tebyg o ymatebwyr ar aelwydydd sydd â cherbyd preifat ac aelwydydd sydd heb gerbyd preifat yn dweud bod cyfleusterau hamdden, siopau bwyd, swyddfeydd post, banciau, ysgolion, plismona a gwasanaethau'r GIG yn 'dda'.

Mae **mynediad** i wasanaethau yn amrywio rhwng pobl ar aelwydydd sy'n berchen ar gar neu sydd â chyfle i ddefnyddio car, a'r rhai sydd heb gar, er nad yw'r gwahaniaeth yn fawr ar gyfer y mwyafrif o'r gwasanaethau. Mae trigolion ar aelwydydd sydd heb gyfle i ddefnyddio cerbyd modur yn debycach o ddweud ei bod yn anodd i aelod o'u haelwyd gyrraedd swyddfa bost, banc neu gymdeithas adeiladu, siop fwyd, canolfan hamdden, canolfan gymunedol neu neuadd bentref, swyddfa heddlu, meddygfa ac ysbyty cyffredinol. Call cyrraedd gwasanaethau sy'n llai cyffredin, fel canolfannau hamdden, meddygfeydd ac ysbytai cyffredinol fod yn arbennig o anodd i'r rhai sydd heb gar. Dywedodd mwy na dwywaith y gyfran o'r rhai sydd heb gar ei bod yn anodd cyrraedd ysbyty na'r rhai y mae ganddyn nhw drafnidiaeth breifat. Mae cyrraedd deintydd yr un mor anodd ymhlith ymatebwyr sydd â chyfle i ddefnyddio car ac ymatebwyr sydd heb gyfle i ddefnyddio un, sy'n adlewyrchu'r anawsterau cyffredin yn y ddarpariaeth ddeintyddol drwy'r Gymru wledig sydd wedi ennyn cyhoeddusrwydd eang. Mae'r duedd hon wedi'i gwrth-droi yn achos gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio'n bennaf gan y rhai sydd heb gerbyd modur. Mae cyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr sy'n byw ar aelwydydd sydd â chyfle i ddefnyddio car yn cael anhawster wrth gyrraedd ysgolion a safleoedd bysiau, o'i gymharu â'r rhai sydd heb drafnidiaeth breifat.

### 4.1.4 Gwasanaethau a chyfalaf cymdeithasol

Ansawdd gwasanaethau a chyfalaf cymdeithasol

Ceir cydberthyniad cryf rhwng boddhad ymatebwyr ar wasanaethau a'u hymdeimlad o fwynhau byw yn eu cymuned (gweler tabl 4.6). O'r rhai sy'n mwynhau byw yn eu

cymuned, mae cyfran fwy yn credu bod y gwasanaethau yn 'dda', nag o blith y rhai nad ydynt yn mwynhau byw yn eu cymuned. Mae'r patrwm hwn i'w weld ar draws yr holl wasanaethau ond mae'n fwyaf amlwg yn achos gwasanaethau'r GIG, canolfannau cymunedol, cyfleusterau hamdden a swyddfeydd post. Ar y llaw arall, mae pobl nad ydynt yn hapus yn byw yn eu cymuned yn debycach o ddweud bod y gwasanaethau yn 'wael'. Mae dros ddwywaith y gyfran o bobl nad ydynt yn mwynhau byw yn eu cymuned yn teimlo bod y plismona yn 'wael', o'i gymharu â'r rhai sy'n mwynhau byw yn eu cymuned.

Tabl 4.6 Canran yr ymatebwyr sydd o'r farn bod y gwasanaethau yn 'dda' ac yn 'wael' yn ôl a ydynt yn mwynhau byw yn eu cymuned neu beidio

| | | **Ddim yn mwynhau byw yn eu cymuned** | **Yn mwynhau byw yn eu cymuned** |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r GIG e.e. Meddygfa neu ysbyty | Gwael | 19.3 | 7.2 |
| | Da | 55.0 | 72.5 |
| Swyddfa bost | Gwael | 9.1 | 3.9 |
| | Da | 68.2 | 83.3 |
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | Gwael | 11.1 | 8.7 |
| | Da | 62.0 | 73.3 |
| Ysgolion | Gwael | 15.3 | 3.0 |
| | Da | 58.8 | 82.8 |
| Siopau bwyd | Gwael | 18.0 | 6.5 |
| | Da | 56.8 | 69.5 |
| Cyfleusterau hamdden | Gwael | 29.3 | 16.3 |
| | Da | 41.3 | 56.6 |
| Canolfan gymunedol | Gwael | 35.4 | 9.4 |
| | Da | 47.7 | 63.5 |
| Plismona | Gwael | 40.4 | 19.1 |
| | Da | 29.3 | 43.5 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | Gwael | 35.7 | 28.0 |
| | Da | 37.8 | 40.2 |

Mae Tabl 4.7, isod, yn darlunio bod faint o amser y bydd pobl yn ei dreulio yn eu cymuned fel pe bai'n dylanwadu ar argraff yr ymatebwyr o ansawdd rhai gwasanaethau. Ar draws yr holl wasanaethau, mae'r rhai sy'n treulio 'y cyfan' o'u hamser yn eu cymuned neu eu hardal yn debycach o ddweud bod gwasanaethau yn 'dda' na'r rhai sy'n treulio dim ond 'rhywfaint' o'u hamser yn eu hardal leol. Ran amlaf, ychydig yn unig yw'r gwahaniaeth, ond mae'n amlycach yn achos trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau

hamdden, banciau a siopau bwyd. Mae 42% o'r rhai sy'n treulio 'y cyfan' o'u hamser yn eu cymuned leol o'r farn bod trafnidiaeth gyhoeddus yn dda, o'i gymharu â 37% o'r rhai sy'n treulio 'rhywfaint' yn unig o'u hamser eu cymuned.

Tabl 4.7 Canran yr ymatebwyr sydd o'r farn bod gwasanaethau yn 'dda' yn ôl a ydynt yn treulio 'y cyfan', 'y rhan fwyaf' neu 'rywfaint' o'u hamser yn eu cymuned

| | **Y cyfan** | **Y rhan fwyaf** | **Rhywfaint** |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r GIG e.e. Meddygfa neu ysbyty | 73.2% | 72.5% | 69.2% |
| Swyddfa bost | 83.7% | 83.0% | 80.5% |
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 74.6% | 73.1% | 70.1% |
| Ysgolion | 83.1% | 81.2% | 80.9% |
| Siopau bwyd | 71.6% | 68.1% | 67.1% |
| Cyfleusterau hamdden | 59.6% | 53.3% | 54.9% |
| Canolfan gymunedol | 62.6% | 63.5% | 60.9% |
| Plismona | 44.1% | 42.0% | 41.8% |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 42.0% | 39.4% | 36.6% |

Mae ymatebwyr y mae eu hargraff o ansawdd gwasanaethau yn is yn debycach o fod yn dymuno byw mewn man arall (gweler tabl 4.8). Mae hyn yn awgrymu bod y gwasanaethau a ddarperir, i rai pobl, yn benderfynydd canolog ar ansawdd byw. Gwelir y gwahaniaeth mwyaf mewn gwasanaethau sy'n ymwneud ag addysg, iechyd a phlismona. Mae 72% o'r ymatebwyr sy'n byw ar aelwyd sy'n cynnwys rhywun sy'n dymuno byw rywle arall yn dweud bod eu hysgolion lleol yn dda, o'i gymharu ag 84% o'r rhai nad ydynt yn dymuno byw rywle arall. Mae'r cydberthyniad hwn ar ei leiaf amlwg yn achos banciau a chymdeithasau adeiladu: dywedir bod y rhain yn dda gan 71% o'r ymatebwyr sydd ag aelodau o'u haelwyd yn dymuno byw rywle arall, o'i gymharu â 73% o'r rhai ar aelwydydd nad ydynt yn cynnwys pobl sy'n awyddus i symud. Mae hyn yn awgrymu nad yw gwasanaethau ariannol yn cael cymaint o effaith ar ddewis preswylfa pobl â gwasanaethau allweddol neu hanfodol eraill, megis addysg ac iechyd a phlismona.

Tabl 4.8 Canran yr ymatebwyr sydd o'r farn bod gwasanaethau yn 'dda', yn ôl a ydyn nhw, neu unrhyw aelod arall o'u haelwyd, yn dymuno byw rywle arall

| | **Aelod o'r aelwyd yn dymuno byw rywle arall** | **Dim aelod o'r aelwyd yn dymuno byw rywle arall** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau'r GIG | 63.0% | 73.7% |
| Swyddfa bost | 77.0% | 83.9% |
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 70.8% | 73.4% |
| Ysgolion | 72.3% | 83.9% |
| Siopau bwyd | 62.5% | 70.6% |
| Cyfleusterau hamdden | 50.1% | 57.4% |
| Canolfan gymunedol | 56.1% | 64.5% |
| Plismona | 34.9% | 45.1% |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 33.3% | 41.5% |

Mynediad i wasanaethau a chyfalaf cymdeithasol

Nid yw faint o amser y bydd yr ymatebwyr yn ei dreulio yn eu hardal leol, a ydynt yn adnabod llawer o bobl yn eu cymuned ac a ydynt yn teimlo bod 'pobl yn y gymuned yn gofalu am ei gilydd' yn dylanwadu'n arwyddocaol ar ba mor hwylus yw hi i'r ymatebwyr gyrchu gwasanaethau. Er hynny, mae ymatebwyr sy'n teimlo'n unig a'r rhai sydd ag ychydig yn unig o gyfeillion a pherthnasau'n byw yn agos yn debycach o sôn am anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau allweddol neu hanfodol.

Mae ymatebwyr sy'n profi'r teimlad eu bod yn unig yn debycach o grybwyll anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau nag ymatebwyr nad ydynt yn profi teimladau felly (cf. Tabl 4.9). Mae'r rhai sy'n teimlo'n unig tua dwywaith yn debycach o ddweud eu bod nhw, neu rywun ar eu haelwyd, yn ei chael yn anodd cyrraedd swyddfa bost, banc, canolfan gymunedol, safle bysiau a meddygfa, a mwy na thair gwaith yn debycach o'i chael yn anodd cyrraedd siop fwyd. Mae'r data hwn yn awgrymu bod cydberthyniad agos rhwng gallu 'trigolion cefn gwlad' i gyrraedd gwasanaethau sylfaenol a'u teimlad eu bod yn bellennig ac yn unig.

Tabl 4.9 Canran yr ymatebwyr sydd ag aelod o'r aelwyd yn ei chael yn anodd cyrraedd gwasanaethau ac sy'n cytuno neu'n anghytuno ei bod yn gallu 'teimlo'n unig yn byw lle'r ydw i'n byw'

| | Teimlo'n unig | Heb fod yn teimlo'n unig |
|---|---|---|
| Swyddfa bost | 7.6 | 3.4 |
| Banc | 15.9 | 7.6 |
| Ysgolion | 1.4 | 0.8 |
| Siopau bwyd | 9.8 | 2.6 |
| Cyfleusterau hamdden | 15.0 | 9.0 |
| Canolfan gymunedol | 6.6 | 2.7 |
| Swyddfa heddlu | 16.7 | 10.0 |
| Safle bysiau | 11.3 | 5.1 |
| Meddygfa | 12.5 | 4.6 |
| Deintydd | 25.3 | 15.3 |
| Ysbyty cyffredinol | 20.8 | 11.0 |

Mae ymatebwyr a chanddynt ddeg neu fwy o gyfeillion a theulu yn byw o fewn pum milltir i'w cartref yn llai tebyg o sôn am broblemau wrth gyrraedd unrhyw un o'r gwasanaethau na'r rhai sydd â llai na deg o gyfeillion ac aelodau teulu yn byw yn agos (gweler tabl 4.10). Mae hyn yn awgrymu y gall trigolion cefn gwlad sydd â rhwydweithiau teuluol cryf yn eu preswylfa oresgyn rhai o anawsterau cyrchu gwasanaethau.

Tabl 4.10 Canran yr ymatebwyr sydd ag aelod o'r aelwyd yn ei chael yn anodd cyrchu gwasanaethau ac sydd â gwahanol niferoedd o gyfeillion neu deulu yn byw o fewn 5 milltir

| | **Nifer y cyfeillion neu'r teulu sy'n byw o fewn 5 milltir** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **1 i 5** | **6 i 10** | **11 i 20** | **21+** |
| Swyddfa bost | 4.0 | 3.7 | 3.6 | 3.8 |
| Banc | 11.4 | 7.7 | 7.7 | 8.4 |
| Ysgolion | 1.7 | 0.9 | 0.8 | 0.7 |
| Siopau bwyd | 4.9 | 4.3 | 3.0 | 3.3 |
| Cyfleusterau hamdden | 10.8 | 12 | 8.9 | 9.6 |
| Canolfan gymunedol | 4.5 | 2.6 | 3.1 | 3.3 |
| Swyddfa heddlu | 11.4 | 12 | 11.5 | 10.9 |
| Safle bysiau | 7.2 | 7.0 | 5.6 | 4.8 |
| Meddygfa | 7.4 | 6.4 | 6.0 | 4.6 |
| Deintydd | 17.8 | 18.8 | 16.5 | 16.7 |
| Ysbyty cyffredinol | 15.7 | 12.4 | 13.1 | 11.5 |

## 4.2 Yr arolwg o wasanaethau gwledig yng Nghymru

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o wasanaethau gwledig a gynhaliwyd yn 2004 ac yr adroddwyd arno yn White a Hughes (2005). Yr arolwg hwn yw'r ymgais cyntaf i arolygu lefelau darparu gwasanaethau yn y Gymru wledig ers astudiaeth ymchwil academaidd annibynnol yng nghanol y 1990au (Higgs a White, 2000). Defnyddiodd yr arolwg y Cyngor Tref neu Gymuned fel yr uned dadansoddi ac anfonwyd holiadur at glercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn ardaloedd gwledig Cymru. Sicrhaodd yr arolwg gyfradd ymateb o bron 70%. Yn yr adran hon rydym yn cymharu darpariaeth nifer o wasanaethau â'r sefyllfa ym 1996 (fel yr adroddwyd arni gan Higgs a White, 2000).

Fel y tanlinellwyd uchod, cafodd arolwg blaenorol o Gynghorau Tref a Chymuned Cymru ei gynnal ym 1996 gan ddilyn methodoleg debyg i'r arolwg cyfredol o wasanaethau gwledig (Higgs a White, 2000). Anfonwyd holiadur at Glerc pob un o'r cymunedau yn yr arolwg ym mis Tachwedd 1995 ac ynddo gwestiynau ynglyn ag argaeledd amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a phreifat. Roedd yr arolwg yn debyg o ran ei rychwant a'i fethodoleg i'r Arolygon Gwasanaethau Pentref a gynhaliwyd ar lefel y plwyf yn Lloegr gan y Comisiwn Datblygu Gwledig (RDC, 1991, 1995, 1997 a'r Asiantaeth Cefn Gwlad, 2001).

Ar y lefel ddisgrifiadol sylfaenol, cafodd canrannau o gymunedau a ymatebodd ac a oedd heb nifer o wasanaethau eu cyfrifo ar gyfer data 1996. Er mai cyfran gymharol fach a oedd heb y gwasanaethau mwyaf sylfaenol megis swyddfa bost (20.5%), a thafarn (10.3%), ac ysgol gynradd (19.9%), yn y gwasanaethau mwy arbenigol megis meddygfa (65.2%), banc neu gymdeithas adeiladu (87.7%), a deintyddfa (89.7%) yr oedd y ddarpariaeth yn neilltuol o wael yn y cymunedau a ymatebodd. Arwyddocaol iawn hefyd yw cyfran gymharol uchel y cymunedau gwledig sydd heb siop (o unrhyw fath) (40%), a gorsaf betrol (44.5%).

Bwriad dadansoddiad arall ar ddata arolwg 1996 a gynhaliwyd yn y GIS at ddibenion yr adroddiad hwn oedd penderfynu ar fandiau poblogaeth ar gyfer y cymunedau a ymatebodd. Mae hynny'n caniatáu dadansoddiad disgrifiadol o'r cyfrannau o'r cymunedau y mae ganddynt gyfleuster gwasanaeth penodol o fewn eu ffiniau, neu sydd heb gyfleuster o'r fath. Yna gall y dadansoddiad hwn gael ei gymharu â data o arolwg yr Arsyllfa o wasanaethau gwledig yng Nghymru 2004. Nid yw hyn wedi'i wneud ar gyfer

pob cyfleuster gwasanaeth a gafwyd yn y ddau arolwg ond yn hytrach ar gyfer detholiad o wasanaethau allweddol neu hanfodol, sef;

- Ysgol gynradd (grwp oedran 5-11)
- Siopau cyffredinol
- Swyddfa bost
- Tafarn (yn gweini prydau bwyd)
- Meddygfa
- Deintyddfa
- Fferyllfa

Mae Tablau 4.11 a 4.12 yn dangos presenoldeb neu absenoldeb ysgolion cynradd yn y Cynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd i arolwg 1996 ac arolwg 2004. Mae'n glir bod darpariaeth y gwasanaeth hwn fel pe bai wedi aros yn weddol gyson dros y cyfnod o wyth mlynedd gyda mân amrywiadau yn unig yn y bandiau poblogaeth. Er hynny, mae'n rhaid nodi rhai amodau wrth edrych ar y dadansoddiad hwn oherwydd, yn gyntaf, cafwyd ymateb gan fwy o gynghorau tref yn arolwg 2004 ac yn ail, bydd amrywiadau o ran pa gynghorau a ymatebodd i'r ddau arolwg, ynghyd â mân newidiadau yn ffiniau'r Cynghorau Cymuned yn y cyfamser (dylai'r amodau hyn gael eu cymhwyso at yr holl ddadansoddiadau canlynol).

Tabl 4.11: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gydag ysgol neu heb ysgol i'r grwp oedran 5-11 (Arolwg 1996)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb ysgol | 56 | 35 | 27 | 12 | 12 | 7 | 1 | 3 | 20 |
| Un neu fwy o ysgolion yn bresennol | 44 | 65 | 73 | 88 | 88 | 93 | 99 | 97 | 80 |

Tabl 4.12: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gydag ysgol neu heb ysgol i'r grwp oedran 5-11 (Arolwg 2004)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb ysgol | 53.2 | 29.3 | 33.4 | 15.4 | 11.3 | 2.2 | 0 | 0 | 17 |
| Un neu fwy o ysgolion yn bresennol | 46.8 | 70.7 | 66.6 | 84.6 | 88.7 | 97.8 | 100 | 100 | 83 |

Mae Tablau 4.13 a 4.14 yn dangos presenoldeb neu absenoldeb siop gyffredinol sy'n gwerthu bwyd ac eitemau heblaw bwyd ar sail y ddau arolwg. Ceir tystiolaeth o amrywio

yn hyn o beth yn y bandiau poblogaeth 500-1000, yn benodol, gan fod y cyfleuster hwn ar gael mewn mwy o gynghorau ym 1996 nag yn 2004.

Tabl 4.13: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda siop gyffredinol neu heb siop gyffredinol (yn gwerthu bwyd ac eitemau heblaw bwyd) (Arolwg 1996)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb siop | 67 | 56 | 38 | 18 | 30 | 18 | 2 | 11 | 47 |
| Un neu fwy o siopau yn bresennol | 33 | 44 | 62 | 82 | 70 | 82 | 98 | 89 | 53 |

Tabl 4.14: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda siop gyffredinol neu heb siop gyffredinol (yn gwerthu bwyd ac eitemau heblaw bwyd) (Arolwg 2004)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb siop | 64.5 | 64.1 | 69.2 | 39.1 | 37.7 | 25.6 | 16.7 | 7.5 | 38 |
| Un neu fwy o siopau yn bresennol | 35.5 | 35.9 | 30.8 | 60.9 | 62.3 | 74.4 | 83.3 | 92.5 | 62 |

Mae Tablau 4.15 a 4.16 yn dangos cyfrannau'r Cynghorau Tref a Chymuned a ymatebodd sydd, neu a oedd, â swyddfa bost (o unrhyw fath) yn Arolwg 1996 ac Arolwg 2004. Unwaith eto, y duedd gyffredinol a welir yw bod y gwasanaeth penodol hwn ar gael yn y bandiau poblogaeth isaf (llai na 1000 o boblogaeth) mewn mwy o gynghorau nag yn 2004.

Tabl 4.15: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda swyddfa bost o unrhyw fath neu heb un (Arolwg 1996)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb swyddfa bost | 46 | 38 | 25 | 21 | 10 | 14 | 5 | 3 | 21 |
| Un neu fwy o swyddfeydd post yn bresennol | 54 | 62 | 75 | 79 | 90 | 86 | 95 | 97 | 79 |

Tabl 4.16: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda swyddfa bost o unrhyw fath neu heb un (Arolwg 2004)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb swyddfa bost | 64 | 52 | 38 | 27 | 15 | 9 | 5 | 0 | 20 |
| Un neu fwy o swyddfeydd post yn bresennol | 36 | 58 | 62 | 73 | 85 | 91 | 95 | 100 | 80 |

Mae Tablau 4.17 a 4.18 yn dangos cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned ym 1996 ac yn 2004 a oedd â thafarn (yn gweini prydau bwyd). Unwaith eto, mae mynychder y math hwn o wasanaeth ychydig yn uwch yn 1996 yn y bandiau poblogaeth isaf nag yn 2004, ond, yn gyffredinol, mae lefelau'r ddarpariaeth wedi parhau'n uchel yn y gwasanaeth hwn yn y cyfamser.

Tabl 4.17: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda thafarn yn gweini prydau bwyd neu heb un. (Arolwg 1996)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | |
| Y gyfran heb dafarn | 34 | 14 | 13 | 6 | 1 | 7 | 1 | 3 | 10 |
| Un neu fwy o dafarnau yn bresennol | 66 | 86 | 87 | 94 | 99 | 93 | 99 | 97 | 90 |

Tabl 4.18: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda thafarn yn gweini prydau bwyd neu heb un. (Arolwg 2004)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | |
| Y gyfran heb dafarn | 50.0 | 11.9 | 23.3 | 16.0 | 1.5 | 3.3 | 9.8 | 0 | 11 |
| Un neu fwy o dafarnau yn bresennol | 50.0 | 88.1 | 76.6 | 84.0 | 98.5 | 96.7 | 90.2 | 100 | 89 |

Mae Tabl 4.19 yn dangos canlyniadau'r dadansoddiad hwn ar gyfer y Feddygfa ym 1996. Mae'n glir bod presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb gwasanaeth o'r fath yn dibynnu i raddau helaeth ar faint poblogaeth y gymuned. Cyfrannau cymharol fach sydd â'r math hwn o wasanaeth yn y bandiau poblogaeth 0-600 (llai nag 20%). Mae'r ffigur yn codi i 41% yn y band 1000-2000 ac mae uwchlaw 70% yn y categorïau 2000 a throsodd. Wrth gwrs, nid yw'r dadansoddiad hwn yn ystyried a oes cyfleuster arall ar gael mewn cymuned gyfagos i'r rhai nad oes ganddynt eu cyfleuster eu hunain. Yn 2004 (Tabl 4.20) mae'n glir bod lefelau darpariaeth meddygfeydd wedi gostwng yn sylweddol yn y bandiau poblogaeth o dan 1000, ar sail canlyniadau'r arolwg.

Tabl 4.19: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda meddygfa neu heb un. (Arolwg 1996)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb feddygfa | 81.5 | 86.0 | 85.4 | 75.8 | 70.7 | 58.7 | 29.6 | 11.5 | 65 |
| Un neu fwy o feddygfeydd yn bresennol | 18.5 | 14.0 | 14.6 | 24.2 | 29.3 | 41.3 | 70.4 | 88.5 | 35 |

Tabl 4.20: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned gyda meddygfa neu heb un. (Arolwg 2004)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb feddygfa | 94.2 | 97.3 | 96.3 | 95.7 | 85.7 | 67.7 | 33.3 | 9.9 | 68 |
| Un neu fwy o feddygfeydd yn bresennol | 5.8 | 2.7 | 3.7 | 4.3 | 14.3 | 32.3 | 66.7 | 90.1 | 32 |

Mae Tabl 4.21 yn tanlinellu cyfran y cymunedau a oedd â deintyddfa neu heb ddeintyddfa ym 1996 ac, mae'n eglur nad oes fawr ddim darpariaeth yn y gwasanaeth hwn o dan y band poblogaeth o 1000. Mae gwasanaethau deintyddol yn unigryw yn y sector gofal iechyd am nad oes rheolaeth ar eu lleoliad. Mae hynny'n awgrymu y byddai deintyddfeydd yn debyg o'u lleoli eu hunain mewn mannau lle ceir poblogaeth, neu nifer cwsmeriaid, uwch, ac mae'n debyg bod hyn yn cael ei gadarnhau yn Nhabl 4.21. Adlewyrchir y duedd a welir yn Nhabl 4.21 yn Nhabl 4.22 gan nad oes fawr ddim darpariaeth yn y gwasanaeth hwn mewn cynghorau sydd â phoblogaeth o lai na 1000 yn Arolwg 2004.

Tabl 4.21: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned â deintyddfa neu heb un. (Arolwg 1996)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb ddeintydd | 100 | 98.2 | 100 | 100 | 100 | 90.5 | 70.4 | 19.2 | 87 |
| Un neu fwy o ddeintyddion yn bresennol | 0 | 1.8 | 0 | 0 | 0 | 9.5 | 29.6 | 80.8 | 13 |

Tabl 4.22: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned â deintyddfa neu heb un. (Arolwg 2004)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb ddeintydd | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 89.6 | 60.5 | 25.0 | 84 |
| Un neu fwy o ddeintyddion yn bresennol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10.4 | 39.5 | 75.0 | 16 |

Mae Tabl 4.23 yn dangos cyfrannau'r cymunedau a oedd â fferyllfa neu a oedd heb fferyllfa ym 1996 ac unwaith eto mae darpariaeth y gwasanaeth hwn yn cydberthyn yn gryf i faint y boblogaeth yn y cymunedau. O dan y band poblogaeth o 1000, llai na 10% o'r cymunedau a ymatebodd a oedd â gwasanaeth fferyllfa. Mae hynny'n codi o 23% yn y band poblogaeth 1000-2000, i 61% yn y band 2000-4000, ac i 77% yn y band poblogaeth 4000+. Mae'r canlyniadau yn debyg yn fras i ganlyniadau Arolwg 2004 (Tabl 4.24). Efallai

bod y gyfradd ddarparu ychydig yn uwch yn y band poblogaeth 4000+ yn deillio o arolygu mwy o Gynghorau Tref mwy yn 2004.

Tabl 4.23: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned â fferyllfa neu heb un. (Arolwg 1996)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb fferyllfa | 98.6 | 98.2 | 91.7 | 90.9 | 96.3 | 77.0 | 38.9 | 23.1 | 90 |
| Un neu fwy o fferyllfeydd yn bresennol | 1.4 | 1.8 | 8.3 | 9.1 | 3.7 | 23.0 | 61.1 | 76.9 | 10 |

Tabl 4.24: Cyfran y Cynghorau Tref a Chymuned â fferyllfa neu heb un. (Arolwg 2004)

| Maint Poblogaeth y Gymuned | 0-400 | 400-500 | 500-600 | 600-700 | 700-1000 | 1000-2000 | 2000-4000 | 4000 + | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Y gyfran heb fferyllfa | 100 | 97.2 | 96.3 | 95.7 | 91.9 | 79.3 | 35.0 | 9.1 | 75 |
| Un neu fwy o fferyllfeydd yn bresennol | 0 | 2.8 | 3.7 | 4.3 | 8.1 | 20.7 | 65.0 | 90.9 | 25 |

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod lefelau'r ddarpariaeth wedi gostwng ar draws amrywiaeth o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig rhwng y ddau arolwg 1996-2004. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y Cynghorau Tref a Chymuned yn y bandiau poblogaeth isaf (llai na 1000 o boblogaeth).

Fel y crybwyllwyd yn Rhagymadrodd yr adroddiad hwn, mae yna broblemau wrth gymharu'r arolwg cyfredol ag arolygon a gynhaliwyd yn Lloegr gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad. Mae'r problemau hyn yn deillio i raddau helaeth o wahaniaethau yn yr uned ddaearyddol a astudiwyd. Gellir cyflawni rhywfaint o ddadansoddi agregedig bras ar ddarpariaeth gwasanaethau ym mhlwyfi Lloegr a'r ddarpariaeth yng Nghynghorau Tref a Chymuned Cymru. Ceir dadansoddiad cychwynnol o'r math hwn yn Nhabl 4.25 ond dylid trin hwn â rhywfaint o ofal o gofio'r gwahaniaethau yn y fethodoleg a'r gwahanol gyfnodau amser yn y ddau arolwg. Mae'r tabl yn cynnig crynodeb o rai o'r ystadegau agregedig allweddol sydd wedi codi o arolwg yr Arsyllfa o wasanaethau gwledig yng Nghymru.

Tabl 4.25: Canran y Cymunedau neu'r Plwyfi Pentref a ymatebodd a oedd â gwasanaeth yn Arolwg 2004 o wasanaethau gwledig yng Nghymru, ac yn Arolwg 2000 o wasanaethau pentrefi Lloegr (CA, 2001)

| **Cyfleuster Gwasanaeth** | **Arolwg y Gymru wledig yn 2004** | **Arolwg o wasanaethau pentrefi Lloegr yn 2000** |
|---|---|---|
| Swyddfa bost (gyda siop) | 60% | 54% (pob math o swyddfa bost) |
| Siop gyffredinol | 62% | 22% |
| Gorsaf betrol (gyda siop) | 29% | Dim data |
| Ysgol gynradd | 83% | 52% |
| Meithrinfa gyhoeddus | 26% | Dim data |
| Meddygfa | 32% | 14% |
| Deintyddfa | 16% | Dim data |
| Tafarn (gyda phrydau bwyd) | 86% | 75% |
| Banc | 15% | 9% (Banc a chymdeithas adeiladu) |
| Gwasanaeth bws | 89.5% | 71% |

**Adran Pump: Canlyniadau'r arolwg o fynediad i wasanaethau gwledig**

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canlyniadau'r prif waith empirig a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn. Gofynnwyd i ddau gant o drigolion y Gymru wledig am eu patrymau mynediad a'u lefelau boddhad ynglyn ag amrywiaeth o wasanaethau. Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr am sut roedden nhw'n defnyddio'r gwasanaethau canlynol: trafnidiaeth gyhoeddus, siopau bwyd, siopau dillad, swyddfeydd post, banciau a chymdeithasau adeiladu, ysgolion, meddygfeydd, deintyddion, fferyllfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden. Mae adran olaf y bennod hon yn defnyddio data sy'n ymwneud â newidiadau yn ansawdd y gwasanaethau a mynediad i wasanaethau dros amser.

**5.1 Trafnidiaeth**

5.1.1 Trafnidiaeth breifat

Bernir yn aml fod mynediad i drafnidiaeth breifat yn hanfodol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Fel rheol, mae gan y mwyafrif llethol o drigolion y Gymru wledig fynediad i gerbyd preifat. Mae gan ychydig dros hanner yr holl aelwydydd un car neu fan, mae gan ryw draean ddau gerbyd ac mae gan 6% dri neu fwy.

Mae gan yr holl ymatebwyr sy'n diffinio'r fan lle maent yn byw fel 'cefn gwlad agored' fynediad i gar, yn wahanol i drigolion trefi bach, y dywedodd 12% ohonynt nad oes ganddynt gerbyd. Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir gwell mynediad i wasanaethau yn llai tebyg o fod â char na'r rhai sy'n byw mewn mannau anos eu cyrraedd: mae 10% o'r ymatebwyr yng Ngrwpiau 1 a 2 (lle ceir gwell mynediad i wasanaethau) heb gerbyd, ond mae 5% o'r rhai yng Ngrwpiau 3 a 4 (ardaloedd lle mae'r mynediad yn wael) heb gerbyd. Ar sail y canfyddiadau hyn, gellir casglu y bernir bod trafnidiaeth breifat yn hanfodol i drigolion sy'n byw mewn ardaloedd sy'n fwy anghysbell yn ffisegol. Mae'n debyg bod y bobl leiaf symudol a'r rhai sy'n methu gyrru neu'n methu fforddio car yn debycach o fyw mewn aneddiadau mawr er mwyn cael mynediad i wasanaethau.

Er gwaethaf lefelau uchel perchnogaeth ceir ar aelwydydd cefn gwlad, nid pob oedolyn sydd â chyfle cyson i ddefnyddio trafnidiaeth breifat. Mae 20% o'r ymatebwyr yn nodi bod rhywun ar eu haelwyd nhw sy'n fwy nag 16 oed ac sy'n dibynnu ar gael lifft gan gyfaill neu aelod o'r teulu a bydd 3.5% yn benthyg neu'n rhannu car (gweler tabl 5.1).

Mae dibynnu ar lifft yn fwy cyffredin ymhlith ymatebwyr sy'n byw mewn mannau hygyrch: mae gan 26% o'r rhai yng Ngrwpiau 1 a 2 aelod o'u haelwyd yn cael lifft yn rheolaidd gan gyfeillion neu aelodau'r teulu, ac mae 18% o'r rhai yng Ngrwpiau 3 a 4 yn cael lifft yn rheolaidd. Yn rhannol, mae'n debyg bod hyn yn wir am fod cyfran uwch o'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd anhygyrch yn meddu ar gerbyd modur. Mae'n eglur bod rhannu car, benthyca cerbyd a chael lifft yn ffordd arwyddocaol o ymdopi â mynediad cyfyngedig trigolion cefn gwlad yn yr ardaloedd a ymatebodd.

Tabl 5.1 Cyfran yr ymatebwyr o wahanol fathau o aneddiadau gwledig sy'n dibynnu'n rheolaidd ar fenthyg car, lifft a rhannu car yn ffurfiol

| | **Benthyca** | **Lifft** | **Rhannu** |
|---|---|---|---|
| Tref | 3.0% | 21.2% | 1.5% |
| Pentref | 2.3% | 23.0% | 3.4% |
| Cefn gwlad agored | 0.0% | 21.3% | 6.4% |
| **Cyfanswm** | 2.0% | 22.0% | 3.5% |

5.1.2 Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn wasanaeth pwysig ynddo'i hun ac, i rai aelodau o'r boblogaeth, yn holl-bwysig wrth benderfynu a fydd yna fynediad i wasanaethau eraill.

Mae Tabl 5.2 yn dangos bod 13% o'r ymatebwyr yn defnyddio bws ar gyfer siwrnai leol [1] o leiaf unwaith yr wythnos, bod 4% yn ei ddefnyddio bob pythefnos a bod 11% yn dal bws unwaith y mis; fydd 72% byth yn dal bws. Mae pobl hyn gryn dipyn yn fwy tebyg o deithio ar fws na thrigolion iau. Mae 17% o'r ymatebwyr dros 65 oed yn dal bws o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 3% o'r rhai o dan 44 oed.

Mae'r bws yn cael ei ddefnyddio amlaf gan drigolion sy'n byw mewn pentref: mae 18% ohonynt yn defnyddio bws o leiaf unwaith yr wythnos. Ymatebwyr o gefn gwlad agored sydd leiaf tebyg o deithio mewn bws yn rheolaidd; rhagdybir mai cyfyngedig yw'r ddarpariaeth i'r trigolion hyn.

[1] Diffiniwyd siwrneiau bws lleol fel siwrneiau o lai nag awr.

Tabl 5.2 Pa mor aml y bydd ymatebwyr o wahanol fathau o anheddiad gwledig yn dal bws lleol

| Ar gyfartaledd, pa mor aml y byddwch chi'n dal y bws ar gyfer siwrnai leol? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bron bob dydd | Unwaith neu ddwy yr wythnos | Bob pythefnos | Bob mis | Byth |
| Tref fawr | 6.7% | 6.7% | 6.7% | 13.3% | 66.7% |
| Tref fach | 0.0% | 11.8% | 5.9% | 13.7% | 68.6% |
| Pentref | 2.3% | 16.1% | 4.6% | 9.2% | 67.8% |
| Cefn gwlad agored | 0.0% | 4.3% | 0.0% | 10.6% | 85.1% |
| **Cyfanswm** | **1.5%** | **11.5%** | **4.0%** | **11.0%** | **72.0%** |

Lleiafrif o'r ymatebwyr sy'n defnyddio trên ar gyfer siwrnai leol (fel y gwelir yn Nhabl 5.3), sy'n adlewyrchu presenoldeb cyfyngedig rheilffyrdd ar draws y Gymru wledig. Bydd 2% o'r ymatebwyr yn dal trên o leiaf unwaith yr wythnos, 1.5% yn dal trên bob pythefnos, 10.6% bob mis a fydd 85.9% byth yn dal trên.

Tabl 5.3 Pa mor aml y bydd ymatebwyr yn dal trên ar gyfer siwrnai leol

| Ar gyfartaledd, pa mor aml y byddwch chi'n dal y trên ar gyfer siwrnai leol? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bron bob dydd | Unwaith neu ddwy yr wythnos | Bob pythefnos | Bob mis | Byth |
| 0.5% | 1.5% | 1.5% | 10.6% | 85.9% |

Gofynnwyd wedyn i'r rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus am eu lefelau boddhad ynglyn â'r gwasanaethau hyn (gweler tabl 5.4). Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y bysiau lleol yn foddhaol: mae 21% yn fodlon iawn a 59% yn weddol fodlon; er hynny mae 13% yn weddol anfodlon ar eu gwasanaeth bysiau lleol ac mae 7% yn anfodlon iawn. Mynegodd cyfran debyg foddhad ar eu gwasanaeth trenau lleol; drwy'r trwch, mae 69% yn fodlon a 31% yn anfodlon.

Tabl 5.4 Lefelau boddhad ar fysiau a threnau lleol

| | Bodlon Iawn | Gweddol Fodlon | Gweddol Anfonon | Anfodlon Iawn |
|---|---|---|---|---|
| Bysiau | 21.4% | 58.9% | 12.5% | 7.1% |
| Trenau | 20.7% | 48.3% | 24.1% | 6.9% |

Mae cynlluniau trafnidiaeth cymunedol, fel Galw'r Gyrrwr, yn cael eu defnyddio gan gyfran fach iawn o'r boblogaeth. Dim ond 3.5% o'r ymatebwyr sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath, y mwyafrif ohonynt 'yn achlysurol'. O'r rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gymunedol, mae bron hanner wedi'u cofrestru'n anabl.

Tabl 5.5 Faint o amser y mae'n ei gymryd i'r ymatebwyr gyrraedd y gwasanaethau canlynol (canrannau)

| | **5 munud neu lai** | **6 i 10 mun** | **11 i 20 mun** | **21 44 mun** | **45+ mun** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwchfarchnad** | 22.1 | 20.5 | 32.3 | 20.0 | 5.1 |
| **Siopau bwyd bach** | 57.1 | 21.7 | 18.6 | 2.5 | 0.0 |
| **Siopau dillad** | 5.5 | 9.5 | 16.5 | 23.0 | 20.5 |
| **Llyfrgell** | 38.6 | 22.9 | 27.1 | 11.4 | 0.0 |
| **Pwll nofio / canolfan hamdden** | 20.0 | 30.0 | 38.0 | 12.0 | 0.0 |
| **Swyddfa bost** | 54.0 | 24.7 | 17.7 | 3.0 | 0.5 |
| **Banc / cymdeithas adeiladu** | 24.7 | 28.9 | 35.5 | 7.8 | 3.0 |
| **Ysgol gynradd** | 52.9 | 17.6 | 11.8 | 11.8 | 5.9 |
| **Ysgol uwchradd** | 9.7 | 22.6 | 41.9 | 16.1 | 9.7 |
| **Meddygfa** | 29.0 | 34.5 | 30.0 | 6.5 | 0.0 |
| **Deintydd** | 13.8 | 19.3 | 29.7 | 23.4 | 13.8 |
| **Fferyllfa** | 34.7 | 32.2 | 27.6 | 4.0 | 0.0 |

## 5.2 Siopa

### 5.2.1 Siopa am fwyd

Mae siopau bwyd wedi'u diffinio fel cyfleustod sylfaenol a - drwy ddefnyddio'r categorïau cychwynnol - fel gwasanaeth allweddol, ac eto mae eu hyfywedd mewn ardaloedd gwledig o dan gryn fygythiad. Dyma un o'r ychydig wasanaethau sy'n gyfan gwbl fasnachol ac mae eu gallu i oroesi yn dibynnu ar faint y mae'r bobl leol yn eu defnyddio.

Mae tri chwarter y bobl yn y Gymru wledig yn byw mewn cymdogaeth y ceir siop ynddi sy'n gwerthu nwyddau sylfaenol. Mewn rhai achosion, siop groser neu uwchfarchnad ar ei phen ei hun yw hon, mewn achosion eraill siop ar y cyd â gwasanaethau eraill yw hi, megis swyddfa bost neu fodurdy. Y rhai sy'n byw mewn trefi bach sydd fwyaf tebyg o fod â siop groser yn eu cymdogaeth: mae gan 94% un. Mae'r mwyafrif llethol (84%) o'r rhai sy'n byw mewn pentref yn dweud bod siop fwyd ar gael yn eu pentref nhw. Dim ond 40% o'r ymatebwyr sy'n diffinio'u preswylfa fel 'cefn gwlad agored' sydd â siop gerllaw. Mae rhyw 13% o'r ymatebwyr o'r trefi mwyaf heb siop o'r fath yn eu cymdogaeth sydd, mae'n debyg, yn adlewyrchu crynodiad y siopau naill ai yng nghanol y trefi mwyaf neu ar y cyrion. Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith bod trigolion o ardaloedd sy'n ymddangos yn fwy hygyrch a llai ymylol yn dal yn agored i anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y siopau 'lleol' hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth. Mae Tabl 5.6 yn dangos bod 10% o'r rhai a all prynu nwyddau yn eu cymdogaeth yn gwneud hynny bob dydd a bod 80% yn gwneud hynny o leiaf unwaith yr wythnos. Er hynny, fydd cyfran fach, 8%, byth yn prynu nwyddau yn eu siop leol a dim ond unwaith y mis y bydd 7% yn siopa yn eu siop leol.

Tabl 5.6 Pa mor aml y mae pobl yn defnyddio'u siop leol i brynu bwyd

| | |
|---|---|
| Bob dydd | 10.0% |
| Tair i chwe gwaith yr wythnos | 14.7% |
| Dwywaith yr wythnos | 27.3% |
| Unwaith yr wythnos | 28.7% |
| Bob pythefnos | 4.0% |
| Bob mis | 7.3% |
| Byth | 8.0% |

Mewn llawer o ffyrdd, nid yw patrymau siopa bwyd pobl yn y Gymru wledig yn wahanol i'r tueddiadau ehangach ledled y DU. Mae 82% o'r bobl yn y Gymru wledig yn disgrifio'u siopa bwyd fel pe bai'n cynnwys 'prif siwrneiau siopa rheolaidd ac ychwanegiadau rhyngddyn nhw', ac mae'r 18% arall yn debyg o wneud siwrneiau yn fwy aml, gan brynu'r hyn y mae arnynt ei angen bob tro.

Nifer y siwrneiau y bydd aelwydydd yn eu gwneud er mwyn siopa am fwyd bob wythnos ac sy'n cael ei grybwyll yn fwyaf aml yw tair. Bydd 22% o'r aelwydydd yn prynu bwyd bedair gwaith a rhagor yr wythnos, a bydd 24% yn gwneud un siwrnai yr wythnos yn

unig. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd anhygyrch yn debycach o wneud siwrneiau mynych i siopa am fwyd na'r rhai mewn ardaloedd eraill, sydd yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu mor hawdd y gallant gyrraedd y siopau (gwelir y ffigurau yn Nhabl 5.7, isod).

Tabl 5.7 Nifer cyfartalog y siwrneiau i siopau bwyd bob wythnos, fesul aelwyd, yn ôl grwpiau hygyrchedd

| | Grwpiau 1 a 2 | Grwpiau 3 a 4 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Dwy siwrnai neu lai yr wythnos | 45% | 54% | **50%** |
| Tair siwrnai neu fwy | 55% | 46% | **50%** |

Mae 88% o'r aelwydydd yn gwneud rhywfaint o siopa mewn siopau bach, er mai cyfran fach o'u siopa wythnosol yw hyn i'r mwyafrif (gweler tabl 5.8). Mae rhyw draean o'r ymatebwyr yn prynu rhwng 1% a 10% o fwyd eu haelwyd o siopau o'r fath. O'r bobl sy'n siopa mewn siopau bwyd bach, mae'r mwyafrif yn defnyddio siopau sy'n llai na phum munud o daith o'u cartref ac mae 43% yn cerdded atynt. Er hynny, fydd 12% ddim yn defnyddio'r siopau agosaf i'w cartrefi, ac mae llawer yn eu gwrthod oherwydd y prisiau uchel neu'r dewis cyfyngedig o gynhyrchion.  Mae marchnadoedd - sef marchnadoedd safonol a marchnadoedd ffermwyr - yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i siopa am fwyd gan 16% o aelwydydd y Gymru wledig.

Tabl 5.8 Cyfran y bwyd sy'n cael ei brynu mewn siopau bwyd bach

| **Canran y bwyd wythnosol a brynir mewn siopau bwyd bach, fesul aelwyd** | **%** |
|---|---|
| 0 | 22.0 |
| 1-10 | 32.5 |
| 11-20 | 15.0 |
| 21-40 | 20.0 |
| 40+ | 10.5 |

Mae 99% o'r ymatebwyr yn defnyddio uwchfarchnadoedd i siopa am fwyd, ac mae'r mwyafrif o'r aelwydydd yn prynu'r rhan fwyaf o'u bwyd mewn siopau o'r fath. Mae dros dri chwarter yr aelwydydd yn prynu o leiaf 75% o'u bwyd mewn uwchfarchnad, ac mae 20% yn prynu holl fwyd yr wythnos yno. Dim ond 2.5% sy'n gwneud llai na hanner eu siopa bwyd mewn uwchfarchnad. Ymatebwyr ar aelwydydd sydd ag incwm blynyddol rhwng £10,000 ac £21,000 sydd debycaf o brynu'r rhan fwyaf o bell ffordd o'u bwyd mewn uwchfarchnadoedd (darperir y data yn Nhabl 5.9).

Tabl 5.9 Cyfran y bwyd a brynir mewn uwchfarchnadoedd, yn ôl incwm yr aelwyd

| | | **£0 - £10,000 p.a.** | **£10,001 - £21,000 p.a.** | **£21,001+** |
|---|---|---|---|---|
| **% y bwyd a brynir mewn uwchfarchnad** | **0-50%** | 10.3% | 8.2% | 8.6% |
| | **51-75%** | 25.6% | 20.4% | 22.4% |
| | **76-100%** | 64.1% | 71.4% | 69.0% |

Does dim syndod bod y mwyafrif o bobl (86%) yn teithio i'r uwchfarchnadoedd mewn car; dim ond 5% sy'n cerdded yno. Mae hyn yn adlewyrchu safle uwchfarchnadoedd ar gyrion trefi a'r ffaith bod meysydd parcio mawr ganddynt. I'r mwyafrif o'r trigolion mae'n cymryd rhwng 11 ac 20 munud i gyrraedd y siopau hyn, er y bydd 20% o bobl yn teithio dros 20 munud i uwchfarchnad (gweler tabl 5.10). I'r rhai sy'n byw mewn cefn gwlad agored, mae bron chwarter yr ymatebwyr yn teithio dros 20 munud i gyrraedd uwchfarchnad. Mae 14% o'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd hynny yn y Gymru wledig yn y categori lleiaf hygyrch (Grwp 4) yn teithio o leiaf 45 munud i gyrraedd uwchfarchnad.

Er hynny, nid yw'r amserau hyn o reidrwydd yn dangos faint o amser y mae'n ei gymryd i drigolion cefn gwlad gyrraedd eu huwchfarchnad agosaf. Nid yw dros 20% o'r ymatebwyr yn mynychu'r uwchfarchnad agosaf i'w cartref. O'r rhai sy'n teithio mwy na deg munud i siopa mewn uwchfarchnad, nid yw 32% o'r ymatebwyr yn ymweld â'r siop agosaf. Y rhesymau mwyaf cyffredin am fynd i rywle arall yw'r diffyg amrywiaeth a'r diffyg dewis cynhyrchion (30%) a chost uchel y cynhyrchion yn y siop agosaf (18%).

Tabl 5.10 Faint o amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd y prif uwchfarchnadoedd a ddefnyddir gan yr ymatebwyr, yn ôl y math o anheddiad

| | Y math o anheddiad | | | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tref fawr | Tref fach | Pentref | Cefn gwlad agored | |
| 5 mun neu lai | 60.0% | 50.0% | 9.6% | 2.1% | **22.1%** |
| 6 i 10 mun | 20.0% | 12.0% | 30.1% | 12.8% | **20.5%** |
| 11 i 20 mun | 13.3% | 16.0% | 33.7% | 53.2% | **32.3%** |
| 21 i 44 mun | 6.7% | 14.0% | 24.1% | 23.4% | **20.0%** |
| 45+ mun | 0.0% | 8.0% | 2.4% | 8.5% | **5.1%** |

Y ffactorau pwysicaf sy'n effeithio ar ddewis pobl o ran siopau bwyd yw amrediad y cynhyrchion a chyfleuster - y bernir eu bod yn bwysig gan 31% a 27% o'r ymatebwyr, yn y drefn honno. Mae'r dylanwadau arwyddocaol eraill yn cynnwys lleoliad y siopau (16%) a phris y cynhyrchion (13%). Bernir bod lleoliad yn ffactor cryn dipyn yn bwysicach ar gyfer ymatebwyr sydd heb fynediad i gar: mae un rhan o dair yn dweud bod hyn yn ddylanwad pwysig, o'i gymharu â 15% o'r rhai y mae ganddynt fynediad i gerbyd.

Mae pobl yn y Gymru wledig yn aml yn cyrchu sawl gwasanaeth yn ystod yr un siwrnai: bydd 65% o'r ymatebwyr fel arfer neu weithiau yn cyfuno siopa am fwyd â gweithgaredd arall (gweler tabl 5.11). Mae cyfran arwyddocaol o'r siwrneiau i brynu bwyd yn cael eu cyfuno â siwrneiau arferol - megis teithio i'r gwaith neu fynd â'r plant i'r ysgol - yn ogystal â chyrchu gwasanaethau eraill. Mae siopa am fwyd yn cael ei gyfuno 'fel arfer' â siopa am bethau heblaw bwyd gan 42% o'r ymatebwyr, ac ymweld â banciau a swyddfeydd post gan 18% o'r aelwydydd gwledig. O'r rhai sydd mewn cyflogaeth amser-llawn, mae un rhan o dair o'r ymatebwyr yn cyfuno siopa am fwyd â theithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith 'weithiau' neu 'fel arfer'. Mae rhyw un ym mhob wyth o aelwydydd yn cyfuno siwrneiau i brynu bwyd 'fel arfer' neu 'weithiau' â gweithgareddau hamdden, ymweld â'r teulu a chyfeillion neu fynd i'r llyfrgell. Mae'r canfyddiadau hyn yn datgelu mai siwrneiau amlbwrpas yw cyfran sylweddol o'r siwrneiau yn y Gymru wledig. Mae i hyn ganlyniadau ar gyfer pa mor aml y bydd y trigolion yn cyrchu gwasanaethau, tarddiad y siwrneiau a'r gyrchfan lle cyrchir y gwasanaethau amlaf.

Tabl 5.11 Canran yr ymatebwyr sydd 'fel arfer' neu 'weithiau' yn cyfuno siopa am fwyd â gweithgareddau eraill

| | **'Fel arfer'** (%) | **'Weithiau'** (%) |
|---|---|---|
| Siopa am bethau heblaw bwyd | 41.5 | 17.0 |
| Ymweld â banciau | 18.0 | 22.0 |
| Ymweld â'r swyddfa bost | 18.5 | 17.5 |
| Teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith | 12.0 | 6.5 |
| Ymweld â theulu neu gyfeillion | 7.0 | 9.5 |
| Casglu plant o'r ysgol | 2.0 | 3.5 |
| Gweithgareddau hamdden | 4.0 | 10.5 |
| Ymweld â llyfrgell | 6.0 | 7.0 |

5.2.2 Siopa am ddillad

Mae anghenion, disgwyliadau a lefelau boddhad pobl yn amrywio gryn dipyn yn achos siopa am ddillad. Mae ychydig dros chwarter yr ymatebwyr o'r Gymru wledig yn siopa am

ddillad yn fisol neu'n amlach, ond dim ond unwaith neu ddwy y flwyddyn y mae 40% yn mynd i siopa am ddillad (cf. Tabl 5.12). Ceir rhywfaint o gydberthyniad rhwng math anheddiad y trigolion a pha mor aml y byddant yn mynd i siopa am ddillad. Bydd 27% o'r rhai sy'n byw mewn trefi mawr yn mynd i siopa am ddillad unwaith y mis, ond 15% o'r rhai sy'n byw mewn cefn gwlad agored a fydd yn siopa yr un mor aml â hyn. Ar y llaw arall, mae dwywaith yn fwy o bobl sy'n siopa am ddillad unwaith y flwyddyn yn byw mewn cefn gwlad agored nag sy'n byw mewn trefi mawr.

Tabl 5.12 Pa mor aml y mae'r ymatebwyr yn siopa am ddillad

| | |
|---|---|
| Bob pythefnos neu'n fwy aml | 8.5% |
| Bob mis | 19.0% |
| Tair i chwe gwaith y flwyddyn | 30.0% |
| Unwaith neu ddwy y flwyddyn | 39.5% |

Mae'n fwy cyffredin i drigolion y Gymru wledig gyfuno siopa dillad â gweithgareddau eraill na mynd ar siwrnai yn unswydd i brynu dillad. Mae ymatebwyr sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf hygyrch (wedi'u categoreiddio fel grwpiau 3 a 4) yn debycach o wneud gweithgareddau eraill ochr yn ochr â siwrneiau i siopau dillad na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir gwell mynediad: mae 64% yng ngrwpiau 3 a 4 yn cyfuno siopa am ddillad â gweithgareddau eraill, o'i gymharu â 44% yng ngrwpiau 1 a 2.

Y cyfnod amser mwyaf cyffredin y bydd pobl yn ei dreulio yn teithio i'r fan lle maen nhw'n siopa am ddillad fel arfer yw rhwng 21 a 40 munud, er bod un rhan o bump o'r ymatebwyr yn teithio am dri chwarter awr neu fwy (gweler tabl 5.5). Mae mwy na dau draean yn teithio yn y car i siopa am ddillad, ac mae lleiafrif bach iawn yn cerdded i'r siopau hyn. Mae 12% o'r ymatebwyr yn prynu'r rhan fwyaf o'u dillad drwy'r rhyngrwyd neu gatalog. Yn gyffredinol, mae pobl sy'n byw mewn cefn gwlad agored yn teithio'n bellach i siopa am ddillad, er bod y rhai sy'n teithio am fwy na 45 munud yr un mor debyg o fyw mewn trefi ag mewn aneddiadau llai eu maint.

Nid yw mwy na hanner y rhai a ymatebodd yn ymweld â'r siopau agosaf atynt i brynu dillad. Mae'n ymddangos bod lleoliad gryn dipyn yn llai pwysig wrth siopa am nwyddau yr hoffech eu cymharu, megis dillad, nag wrth siopa am nwyddau cyfleus, megis bwyd. Dim ond 6% sy'n credu bod lleoliad yn ddylanwad pwysig ar eu dewis o siopau dillad, o'i gymharu ag 16% sy'n dweud bod lleoliad yn benderfynydd pwysig wrth iddynt ddewis

siopau bwyd. Dywedir bod dewis a gwerth yn ddylanwadau pwysig ar ddewis pobl o siopau dillad.

### 5.3 Swyddfeydd post a gwasanaethau ariannol

5.3.1 Swyddfeydd post

Mae swyddfeydd post yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan drigolion y Gymru wledig (gweler tabl 5.13). Mae mwy na hanner yr ymatebwyr yn ymweld â swyddfa bost o leiaf unwaith yr wythnos, mae 19% yn mynd i swyddfa bost unwaith bob pythefnos, mae 14% yn mynd bob mis ac mae 12% yn mynd yn llai aml na hynny. Mae ymatebwyr ifanc, sef y rhai o dan 45, yn llai tebyg o ymweld â swyddfeydd post yn rheolaidd: mae 48% yn mynd o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 59% o'r rhai rhwng 45 a 64 oed. Mae'r mwyafrif o bobl yn teithio llai na 5 munud i gyrraedd y swyddfa bost y maent yn ei defnyddio'n fwyaf aml (gweler tabl 5.5), ac mae 47% yn mynd yno ar droed. Mae 63% o'r ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd a osodwyd yn y categori 'mwyaf hygyrch' yn byw o fewn pum munud i'w swyddfa bost, o'i gymharu â 44% o'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf hygyrch.

Tabl 5.13 Pa mor aml y mae pobl yn ymweld â swyddfa bost

| | % |
|---|---|
| Dwywaith yr wythnos | 21.0 |
| Bob wythnos | 34.0 |
| Bob pythefnos | 19.0 |
| Bob mis | 14.0 |
| Yn llai aml | 12.0 |

Mae rhyw hanner y swyddfeydd post a ddefnyddir yn fwyaf aml gan yr ymatebwyr yn cael eu cyfuno â swyddogaeth arall. Mewn mwy na 90% o'r achosion mae'r swyddfa bost wedi'i 'gefeillio' â siop groser, er bod y swyddogaethau eraill y maent wedi'u cyfuno â nhw yn cynnwys siopau llyfrau, caffis a modurdai.

Yn gyffredinol, ni fydd un ym mhob wyth o bobl yn defnyddio'r swyddfa bost agosaf i'w cartref. Mae'r rhesymau dros fynd rywle arall i ddefnyddio materion o'r fath yn cynnwys defnyddio swyddfa bost yn agos i'w gweithle, neu fynd i gangen lle ceir gwell maes

parcio, yn ogystal â phroblemau gwasanaeth, megis y swyddogaethau cyfyngedig sydd ar gael yn y canghennau lleiaf.

5.3.2 Banciau a chymdeithasau adeiladu

Mae 40% o drigolion y Gymru wledig yn ymweld â banc neu gymdeithas adeiladu o leiaf unwaith yr wythnos. Mae chwarter o'r ymatebwyr yn ymweld â gwasanaethau o'r fath lai nag unwaith y mis (gweler tabl 5.14). Mae pa mor aml y bydd pobl yn ymweld â banc neu gymdeithas adeiladu yn cael ei effeithio'n gryf gan y math o le y maent yn byw ynddo. Mae pobl sy'n byw mewn tref yn debycach o fynd i'r banc unwaith yr wythnos neu fwy na'r rhai sy'n diffinio'u preswylfa fel 'cefn gwlad agored' (48% o'i gymharu â 30%). Y cyfnod amser mwyaf cyffredin i bobl deithio er mwyn cyrraedd banc neu gymdeithas adeiladu yw rhwng 11 ac 20 munud, ac yn y car y mae'r mwyafrif o bobl yn cyrraedd yno.

Tabl 5.14 Pa mor aml y mae'r ymatebwyr yn ymweld â banc neu gymdeithas adeiladu

| | % |
|---|---|
| Dwywaith yr wythnos | 7.1 |
| Bob wythnos | 33.5 |
| Bob pythefnos | 10.2 |
| Bob mis | 23.4 |
| Yn llai aml | 25.9 |

Nid yw nifer fawr o wasanaethau ariannol yn dibynnu ar ymweliad corfforol â banc neu gymdeithas adeiladu, sy'n esbonio'r gyfran arwyddocaol o ymatebwyr nad ydynt bron byth yn ymweld â changen. Mae dros chwarter y bobl yn y Gymru wledig yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd ar gyfer eu bancio, mae 18% yn bancio dros y ffôn ac mae 8% yn bancio yn y swyddfa bost. Mae 'mynediad rhithwir' i wasanaethau bancio wedi darparu cyfrwng ymarferol i bobl mewn ardaloedd gwledig gyrchu'r gwasanaeth hwn, heb fawr ddim cost ychwanegol i'r cwsmeriaid.

### 5.4 Ysgolion

Bernir bod ysgolion yn y Gymru wledig yn ganolbwynt mewn llawer o gymunedau bach, yn ogystal â darparu gwasanaeth holl-bwysig i ganiatáu i blant gael eu haddysg yn eu hardal leol. Mae'r mwyafrif o blant o oedran **ysgol gynradd** yn y Gymru wledig yn mynd i ysgol o fewn 5 munud i'w cartref. Mae bron dwy ran o dair o'r plant yn mynd i'r ysgol mewn car, mae 18% yn cerdded a 12% yn mynd mewn bws ysgol. Nid yw mwy na 40% yn mynd i'r ysgol agosaf i'w cartref. Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros fynd rywle

arall yn ymwneud ag iaith yr ysgol. Cymhellion eraill dros beidio â mynd i'r ysgol gynradd leol yw'r argraff o ansawdd yr ysgol, neu agosrwydd yr ysgol i le gwaith un o'r rheini. Mae 88% o'r rheini yn fodlon ar ansawdd ysgol gynradd y plentyn, a'r mwyafrif o'r rhain yn 'fodlon iawn'.

Mae plant yn teithio'n bellach o lawer i'r ysgol uwchradd. Mae 42% yn byw rhwng 11 ac 20 munud o'u hysgol, mae 16% yn teithio rhwng 20 a 40 munud ac mae lleiafrif arwyddocaol (10%) yn byw dros dri chwarter awr o'u hysgol gynradd. O gofio'r pwyslais presennol ar ddewis mewn addysg uwchradd, dim ond un plentyn mewn deg sy ddim yn mynd i'r ysgol agosaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r pellter teithio arwyddocaol rhwng ysgolion yn y Gymru wledig a'r diffyg dewis gwirioneddol sydd ar gael i fyfyrwyr yn y Gymru wledig. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei defnyddio'n helaeth i fynd i'r ysgolion uwchradd: mae 45% o blant yn mynd i'r ysgol mewn bws, er bod mwy nag un rhan o dair o fyfyrwyr yn teithio yno mewn car.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod rhieni'n fodlon ar ansawdd addysg uwchradd eu plant, a dim ond 3% sy'n dweud eu bod yn anfodlon. Does dim llawer o gonsensws o ran beth a allai gael ei wneud i wella addysg yn y Gymru wledig. Y gwyn fwyaf cyffredin yw bod ar yr ysgolion angen mwy o gyllid. Mae'r awgrymiadau mwy penodol yn cyfeirio at amrediad y pynciau a gynigir, adnewyddu adeiladau a'r ddarpariaeth ar ôl yr ysgol. Lleiafrif yn unig o blant sy'n cael gofal ar ôl ysgol (16%), er bod y mwyafrif llethol o'r rhai sy'n ei gael (85%) yn fodlon ar ansawdd y ddarpariaeth.

### 5.5 Gwasanaethau iechyd

#### 5.5.1 Meddygon

Mae meddygon teulu yn wasanaeth holl-bwysig yn y Gymru wledig, sef gwasanaeth a ddefnyddir yn helaeth ac y bernir ei fod o ansawdd dda gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Mae pawb a holwyd wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu ac mae pedair rhan o bump o'r ymatebwyr wedi gweld eu meddyg naill ai eu hunain neu ar ran eu plentyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r mwyafrif yn ymweld â'r feddygfa agosaf i'w cartref. Nid yw 12% wedi'u cofrestru gyda'r meddyg agosaf, a'r rheswm am hynny i'r mwyafrif o bobl yw eu bod heb newid meddyg ar ôl symud ty.

Bydd tri chwarter yr ymatebwyr yn teithio i'w meddygfa yn y car, a bydd un rhan o bump o bobl yn cerdded. Lleiafrif yn unig (7%) sydd â siwrnai o fwy nag ugain munud (gweler tabl 5.5), er bod y rhain yn fwy cyffredin ymhlith y rhai sy'n byw mewn cefn gwlad agored a phentrefi na'r rhai sy'n byw yn y dref. Mae dau draean o bobl y Gymru wledig yn byw o fewn 10 munud o'r fferyllfa y maent yn ei defnyddio amlaf.

Mae 8% yn dweud ei bod yn anodd iawn cyrraedd eu meddygfa, a dim ond 1% sydd o'r farn bod cyrraedd yno yn anodd iawn iddynt. Ceir cydberthyniad cryf rhwng y rhai sy'n dioddef problemau i gyrraedd eu meddyg teulu ac oedran yr ymatebwyr. Mae 16% o'r rhai sy'n 65 neu drosodd yn crybwyll anawsterau wrth gyrraedd eu meddyg teulu, o'i gymharu â 2% yn unig o bawb o dan 65 oed.

Mae 8% o'r ymatebwyr yn anfodlon ar ansawdd eu meddyg teulu, mae 45% o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn foddhaol iawn ac mae 46% yn dweud ei fod yn foddhaol. Mae'r awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth cyfredol yn ymwneud yn fwyaf cyffredin ag argaeledd ac amserlennu apwyntiadau (a nodwyd gan 18% o'r ymatebwyr), yn enwedig gyda'r nos ac ar y penwythnos. Dim ond 1% o'r rhai y cyfwelwyd â nhw sydd fel rheol yn cael eu gweld gan eu meddyg gartref, ac eto i gyd mae 3% yn credu y byddai rhagor o ymweliadau â'r cartref yn gwella'r gwasanaeth cyfredol.

5.5.2 Deintyddion

Mae cofrestru gyda deintydd yn llai cyffredin na chyda meddyg teulu. Nid yw 28% o'r ymatebwyr wedi'u cofrestru gyda deintydd. O'r rhai sydd wedi'u cofrestru, mae rhyw hanner gyda deintydd GIG a rhyw hanner gydag un preifat. Bydd 14% o bobl yn teithio fwy na 45 munud i gyrraedd eu deintyddfa (gweler tabl 5.5). Ar gyfer un ym mhob deg o bobl, mae eu deintydd wedi'i leoli y tu allan i'r Gymru wledig, sef yn fwyaf aml yn y Cymoedd neu yn ninasoedd a threfi Cymru, megis Casnewydd ac Abertawe. Mae 3% o'r ymatebwyr wedi'u cofrestru gyda deintyddion yn Lloegr, am fod rhai ohonynt yn agos i'r ffin â Lloegr, megis yng Nghroesoswallt; i rai eraill, mae'r deintydd yn bellach i ffwrdd, er enghraifft yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Sir Derby.

Mae dros chwarter o'r bobl yn anfodlon ar leoliad eu deintydd. Mae cyfran lai (10%) yn anfodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan eu deintydd. Yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ddeintyddol yn y Gymru wledig yw darparu mwy o

ddeintyddion GIG, neu i ddeintyddion preifat ddychwelyd i'r GIG (a nodwyd gan 24% o'r ymatebwyr). Mae 16% o'r ymatebwyr yn galw am fwy o ddeintyddfeydd neu fwy o ddeintyddion.

## 5.6 Hamdden a llyfrgelloedd

Gellir deall cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd fel rhywbeth sy'n ychwanegu at ansawdd bywyd, neu wasanaethau atodol, yn hytrach na chyfleustodau hanfodol. Mewn ardaloedd gwledig, mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau atodol o'r fath yn aml yn wael oherwydd cost uchel darparu mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth.

### 5.6.1 Llyfrgelloedd

Nid yw'r mwyafrif llethol o bobl sy'n byw yn y Gymru wledig yn defnyddio llyfrgell: fydd bron dau draean byth yn defnyddio un. Mae 29% yn ymweld â llyfrgell o leiaf unwaith y mis, ac mae 9% y mynd yno o leiaf unwaith yr wythnos (cf. Tabl 5.17). Cyfran fach yn unig o bobl yn y Gymru wledig sy'n defnyddio llyfrgell yn llai aml, ac mae 7% yn mynd i'r llyfrgell rhwng unwaith y flwyddyn ac unwaith y mis. Mae lleiafrif, dim ond 9%, o'r rhai sy'n defnyddio llyfrgelloedd yn ymweld â gwasanaeth symudol.

Tabl 5.17 Pa mor aml y mae'r ymatebwyr yn mynd i lyfrgell gyhoeddus

| | |
|---|---|
| Unwaith neu fwy yr wythnos | 9.0% |
| Unwaith y bythefnos | 7.5% |
| Unwaith y mis | 12.0% |
| Rhwng unwaith y mis ac unwaith y flwyddyn | 6.5% |
| Byth | 65.0% |

Mae 90% o'r rhai sy'n ymweld â llyfrgell yn mynd i'r un agosaf, ac i fwy na thraean o bobl mae honno lai na phum munud i ffwrdd. Mae ychydig dros 10% o'r ymatebwyr yn teithio fwy nag 20 munud i gyrraedd y llyfrgell.

### 5.6.2 Pyllau nofio / canolfannau hamdden

Lleiafrif o bobl yn y Gymru wledig sy'n ymweld â phwll nofio neu ganolfan hamdden. Fel y gwelir yn Nhabl 5.18, fydd 65% o'r trigolion byth yn defnyddio'r cyfleusterau hyn. O'r rhai sy'n mynd i ganolfan hamdden, unwaith y mis yw'r amlder mwyaf cyffredin ymhlith yr ymatebwyr. I'r mwyafrif o bobl, mae'n cymryd rhwng 11 ac 20 munud i deithio i ganolfan hamdden, ac yn y car y bydd 76% yn teithio yno.

Tabl 5.18 Pa mor aml y mae'r ymatebwyr yn ymweld â phwl nofio neu ganolfan hamdden

| | |
|---|---|
| Unwaith neu fwy yr wythnos | 9.0% |
| Unwaith y bythefnos | 7.5% |
| Unwaith y mis | 12.0% |
| Rhwng unwaith y mis ac unwaith y flwyddyn | 6.5% |
| Byth | 65.0% |

**5.7 Y newid yn y ddarpariaeth gwasanaethau ac mewn mynediad i wasanaethau dros amser**

Mae'r mwyafrif o'r bobl sy'n byw yn eu heiddo presennol ers deg mlynedd a rhagor o'r farn nad yw ansawdd gwasanaethau wedi newid yn arwyddocaol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae un rhan o bump o'r holl ymatebwyr yn credu bod gwasanaethau wedi gwella ers pum mlynedd yn ôl; mae'r un gyfran yn dweud bod ansawdd gwasanaethau wedi dirywio (gweler tabl 5.19). Mae 4% yn teimlo bod gwasanaethau wedi mynd 'gryn dipyn yn waeth' dros y cyfnod hwnnw. Ymatebwyr sy'n diffinio'u preswylfa fel 'cefn gwlad agored' sydd leiaf tebyg o ddweud bod gwasanaethau wedi gwella (12%), o'i gymharu â 17% mewn trefi a mwy na chwarter o'r rhai mewn pentrefi.

Tabl 5.19 Argraff yr ymatebwyr o'r newid yn ansawdd gwasanaethau yn y pum mlynedd diwethaf

| | |
|---|---|
| Cryn dipyn yn waeth | 3.5% |
| Ychydig yn waeth | 16.3% |
| Tua'r un fath | 60.3% |
| Ychydig yn well | 19.1% |
| Cryn dipyn yn well | 0.7% |

Mae'r argraff o'r newid yn ansawdd gwasanaethau yn cyfateb i argraff yr ymatebwyr o'r newid yn eu mynediad i wasanaethau. O'i gymharu â deg mlynedd yn ôl, mae 61% o'r rhai sy'n byw yn yr un eiddo yn teimlo bod hwylustod cyrchu gwasanaethau iddyn nhw heb newid, mae 23% yn teimlo ei fod yn waeth ac mae 15% yn credu ei fod wedi gwella. Mae'n debyg bod colli'r gallu i symud o gwmpas wedi ysgogi'r newidiadau negyddol hyn i lawer o'r ymatebwyr.

Mae'r rhai sy'n byw mewn trefi yn debycach o ddweud bod eu mynediad i wasanaethau wedi dirywio dros y degawd diwethaf na'r rhai mewn pentrefi neu gefn gwlad agored (32%, o'i gymharu â 19% a 18%, yn y drefn honno). Dim ond 3% o'r ymatebwyr o gefn gwlad agored sy'n meddwl bod eu mynediad i wasanaethau wedi gwella yn y deg mlynedd diwethaf, o'i gymharu â 23% mewn pentrefi.

Mae llawer o bobl sydd wedi symud ty yn y pum mlynedd diwethaf wedi symud i ardal sydd â gwasanaethau gwaeth sy'n anos eu cyrchu. Ar sail data'r arolwg, gellir casglu bod cyfran fawr o'r ymatebwyr wedi symud i'r Gymru wledig o ardaloedd trefol. Roedd 60% o'r ymatebwyr yn byw y tu allan i'r Gymru wledig o'r blaen ac roedd 47% yn byw mewn tref fawr, o'i gymharu ag 8% yn unig sy'n byw mewn anheddiad o'r fath ar hyn o bryd (gweler tabl 5.20). Mae 45% o'r ymatebwyr sydd wedi symud yn y pum mlynedd diwethaf yn credu ei bod yn anos iddynt gyrchu gwasanaethau, ac mae 22% yn credu bod eu mynediad wedi mynd 'gryn dipyn yn waeth'. Mae cyfran lai yn teimlo bod ansawdd gwasanaethau wedi dirywio, ac eto i gyd mae 22% yn teimlo bod gwasanaethau ychydig yn waeth o'u cymharu â'r ddarpariaeth gwasanaethau yn eu preswylfa flaenorol. Mae ychydig dros 30% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn byw bellach mewn ardal lle mae ansawdd y gwasanaethau'n well.

Tabl 5.20 Cyfran yr ymatebwyr sydd ar hyn o bryd yn diffinio'u preswylfa, a'u preswylfa flaenorol fel 'tref fawr', 'tref fach', 'pentref' a 'chefn gwlad agored'

| | **Math yr anheddiad cyfredol** | **Math yr anheddiad yn y cyfeiriad blaenorol** |
|---|---|---|
| Tref fawr | 7.5% | 46.7% |
| Tref fach | 25.5% | 32.0% |
| Pentref | 43.5% | 16.0% |
| Cefn gwlad agored | 23.5% | 5.3% |

## Adran Chwech: Trafodaeth ar y Canlyniadau a Diweddglo

Mae'r adran hon yn trafod y canfyddiadau a gyflwynwyd yn Adran Pump, a gymerwyd o'r Arolwg o Fynediad i Wasanaethau. Diben yr adran yw tynnu casgliadau am y mecanweithiau ymdopi y mae trigolion cefn gwlad yn eu defnyddio er mwyn cael mynediad i'r amrywiaeth o wasanaethau allweddol neu hanfodol a ystyriwyd yn yr arolwg. Mae'r adran wedi'i strwythuro drwy ystyried gwasanaethau penodol er mwyn datblygu themâu a thueddiadau penodol, cyn tynnu casgliadau ehangach o'r ymchwil.

### 6.1 Trafnidiaeth breifat

Er nad gwasanaeth mohoni, yn amlwg, mae defnyddio trafnidiaeth breifat yn ffactor bwysig wrth benderfynu lefelau mynediad i wasanaethau penodol mewn ardaloedd gwledig. Gwelodd yr arolwg fod lleoliad trigolion cefn gwlad yn ffactor pwysig wrth benderfynu lefelau perchnogaeth ceir preifat, gyda'r holl ymatebwyr mewn cefn gwlad agored yn berchen ar gar o'i gymharu ag 88% mewn trefi bach mewn ardaloedd gwledig. Roedd gan yr ardaloedd lle'r oedd y mynediad i wasanaethau yn well (yn ôl cyfrifiadau dadansoddiad amser teithio GIS) lai o berchnogaeth ceir hefyd na'r ardaloedd gwaeth eu mynediad; mae 10% o'r ymatebwyr yng Ngrwpiau 1 a 2 (sydd â gwell mynediad i wasanaethau) heb gerbyd, ond mae 5% o'r rhai yng Ngrwpiau 3 a 4 (ardaloedd sydd â mynediad gwaeth) heb un. Drwy ddadansoddi canlyniadau'r arolwg, gwelwyd yn glir mai siwrneiau yn y car yw'r briff ffordd i gyrchu llawer o wasanaethau, er enghraifft mae 75% yn defnyddio car i gyrraedd gwasanaethau meddyg teulu. Mae'n bosibl felly mai defnyddio trafnidiaeth breifat yw'r ffordd allweddol i ymdopi â mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Nid yw hynny'n syndod, ond mae'n cadarnhau'r syniadau cydnabyddedig am bwysigrwydd symudedd mewn ardaloedd gwledig a'r anfantais ddilynol i'r rhai sydd heb drafnidiaeth breifat. Un ffordd o ymdopi heb drafnidiaeth breifat yw defnyddio lifft neu rannu car. Mae dibynnu ar lifft yn fwy cyffredin ymhlith ymatebwyr sy'n byw mewn mannau hygyrch: mae gan 26% o'r rhai yng Ngrwpiau 1 a 2 aelod o'r aelwyd sy'n cael lifft yn rheolaidd gan gyfeillion neu aelodau'r teulu, ac mae 18% o'r rhai yng Ngrwpiau 3 a 4 yn cael lifft yn rheolaidd.

### 6.2 Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod trigolion cefn gwlad, ar y cyfan, yn fodlon ar y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn lleol ond bod yna leiafrif arwyddocaol sy'n dweud

eu bod yn anfodlon ar lefelau trafnidiaeth gyhoeddus - 20% yn achos gwasanaethau bysiau lleol a 31% yn achos gwasanaethau trenau lleol. Mae hyn yn awgrymu nad yw un ffordd bosibl o ymdopi â mynediad gwael i wasanaethau i leiafrif arwyddocaol, sef defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ar gael i raddau boddhaol o fewn eu hardaloedd. Mae'n wir mai lleiafrif o bobl sy'n teithio ar y bws, gyda 72% yn dweud nad ydyn nhw byth yn teithio ar y bws, ond mae grwpiau penodol, megis yr oedrannus, yn defnyddio mwy ar y gwasanaethau hyn yn rheolaidd.

### 6.3 Siopa am fwyd

Dim ond 40% o'r ymatebwyr sy'n byw mewn 'cefn gwlad agored' sydd â siop fwyd yn agos atynt. Mae rhyw 13% o'r ymatebwyr o'r trefi mwyaf heb siop o'r fath yn eu cymdogaeth, a rhagdybir bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod siopau'n cael eu crynhoi naill ai yng nghanol y trefi mwyaf, neu ar eu cyrion. Mae hyn yn tanlinellu bod trigolion o ardaloedd y mae'n ymddangos eu bod yn fwy hygyrch ac yn llai ymylol yn dal yn agored i anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau. Ategir yr haeriad hwn gan y ffaith bod 82% o'r ymatebwyr yn yr arolwg yn gwneud siwrneiau siopa mawr, yn y car fel arfer, gan ychwanegu atynt o dro i dro. Mae dros dri chwarter o'r aelwydydd yn prynu o leiaf 75% o'u bwyd mewn uwchfarchnad, ac mae 20% yn prynu eu holl fwyd wythnosol yno. Dim ond 2.5% sy'n gwneud llai na hanner eu siopa am fwyd mewn uwchfarchnadoedd. Mae pobl yn yr ardaloedd mwyaf hygyrch yn debycach o wneud siwrneiau mynych i wneud eu siopa am fwyd, sydd yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu mor hawdd yw hi iddynt gyrraedd y siopau hyn. Mecanwaith ymdopi allweddol, felly, mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig y rhai lleiaf hygyrch, yw defnyddio'r uwchfarchnadoedd mwyaf a gwneud 'neges wythnosol' mewn siwrnai yn y car. Er hynny, mae yna elfen o ddewis yn y patrwm hwn, gan nad yw rhyw 20% yn ymweld â'u siop agosaf oherwydd materion ynglyn â dewis. Mae siwrneiau amlbwrpas yn ffordd arall i ymdopi â mynediad gwael i siopau bwyd ac mae un rhan o dair o'r ymatebwyr sydd mewn cyflogaeth amser-llawn yn cyfuno siopa am fwyd â'r siwrnai i'r gwaith.

### 6.4 Siopa am Ddillad

Mae 27% o'r rhai sy'n byw mewn trefi mawr yn siopa am ddillad unwaith y mis, ond 15% o'r rhai sy'n byw mewn cefn gwlad agored sy'n siopa mor aml â hynny. Ar y llaw arall, mae dwywaith yn fwy o bobl sy'n siopa am ddillad unwaith y flwyddyn yn byw mewn cefn gwlad agored nag mewn trefi mawr. Mae'n fwy cyffredin i drigolion yn y Gymru

wledig gyfuno siopa am ddillad â gweithgareddau eraill na gwneud siwrnai yn unswydd i brynu dillad. Mae ymatebwyr sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf hygyrch (sydd wedi'u categoreiddio fel grwpiau 3 a 4) yn debycach o wneud gweithgareddau eraill ochr yn ochr â siwrneiau i siopau dillad na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir gwell mynediad: mae 64% yng ngrwpiau 3 a 4 yn cyfuno siopa am ddillad â gweithgareddau eraill, o'i gymharu â 44% yng ngrwpiau 1 a 2. Yr amser mwyaf cyffredin y bydd pobl yn teithio i'r fan lle maen nhw'n siopa am ddillad fel arfer yw rhwng 21 a 40 munud, er bod un rhan o bump o'r ymatebwyr yn teithio am dri chwarter awr neu fwy. Gan hynny, nid yw cwestiwn pellter, neu leoliad, yr un mor bwysig wrth siopa am ddillad. Yma, mae ffactorau fel dewis, gwerth a hoffter yn bwysicach ac mae llawer o drigolion cefn gwlad yn fodlon teithio i ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng y ffactorau hyn.

### 6.5 Swyddfeydd Post

Mae dros hanner yr ymatebwyr yn ymweld â swyddfa bost o leiaf unwaith yr wythnos, mae 19% yn mynd i swyddfa bost unwaith bob pythefnos, mae 14% yn mynd bob mis ac mae 12% yn mynd lai nag unwaith y mis. Mae ymatebwyr ifanc, sef y rhai o dan 45 oed, yn llai tebyg o ymweld â swyddfeydd post yn rheolaidd: mae 48% yn mynd yno o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 59% o'r rhai rhwng 45 a 64 oed. Mae'r mwyafrif o bobl yn teithio am lai na 5 munud i gyrraedd y swyddfa bost y maen nhw'n ei defnyddio amlaf ac mae 47% yn mynd yno ar droed. Nid yw un ym mhob wyth o bobl, yn gyffredinol, yn defnyddio'r swyddfa bost agosaf at eu cartref. Mae'r rhesymau dros fynd rywle arall yn ymwneud â phroblemau mynediad, megis ymweld â swyddfa bost yn agos i'w lle gwaith, neu fynd i gangen sydd â gwell maes parcio, yn ogystal â phroblemau gwasanaeth, megis y swyddogaethau cyfyngeidg a ddarperir yn y canghennau lleiaf. Gan hynny, mae'r swyddfa bost yn cael ei gweld fel gwasanaeth lleol yn bennaf, y mae'n hawdd i'r mwyafrif o'r ymatebwyr ei chyrraedd er gwaethaf y ffaith bod yr arolygon o wasanaethau gwledig yng Nghymru a amlinellwyd yn adran 4.2 yn dangos dirywiad yng ngwasanaethau'r swyddfeydd post dros y deg mlynedd diwethaf. Er hynny, diddorol yw nodi bod rhai trigolion yn dewis defnyddio gwasanaeth swyddfa bost arall oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â gwell mynediad neu lefelau'r gwasanaethau a ddarperir yn y swyddfa bost.

## 6.6 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu

Mae 40% o drigolion y Gymru wledig yn ymweld â banc neu gymdeithas adeiladu o leiaf unwaith yr wythnos. Mae chwarter yr ymatebwyr yn ymweld â gwasanaethau o'r fath lai nag unwaith y mis. Effeithir yn gryf ar amlder ymweliadau pobl â banc neu gymdeithas adeiladu gan y math o le y maent yn byw ynddo. Mae pobl sy'n byw mewn trefi yn debycach o ymweld â banc unwaith neu fwy yr wythnos na'r rhai sy'n diffinio'u preswylfa fel 'cefn gwlad agored' (48% o'i gymharu â 30%). Mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn cyrraedd banciau a chymdeithasau adeiladu yn y car ac yn aml maent yn cyfuno hyn â theithio i'r gwaith. Yn ôl yr arolwg, mae trigolion cefn gwlad yn teithio rhwng 11 ac 20 munud i gyrchu gwasanaethau ariannol. Pam ofynnwyd am fecanweithiau i ymdopi â mynediad gwael i wasanaethau o'r fath soniodd bron chwarter am ddefnyddio bancio ffôn a bancio rhyngrwyd, a chyfeiriodd rhai hefyd at fancio drwy'r post.

## 6.7 Gwasanaethau addysg

Mae'r mwyafrif o blant o oedran ysgol gynradd yn y Gymru wledig yn mynychu ysgol o fewn 5 munud i'w cartref. Yn y car y bydd bron dwy ran o dair o'r plant yn cyrraedd eu hysgol, gyda 18% yn cerdded a 12% yn teithio mewn bws ysgol. Nid yw mwy na 40% yn mynd i'r ysgol agosaf at eu cartref. Mae plant yn teithio yn llawer pellach i'w hysol uwchradd. Mae 42% yn byw rhwng 11 ac 20 munud o'u hysgol, mae 16% yn teithio rhwng 20 a 40 munud ac mae lleiafrif arwyddocaol (10%) yn byw dros dri chwarter awr o'u hysgol uwchradd. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei defnyddio'n helaeth i gyrraedd ysgolion uwchradd: bydd 45% o blant yn mynd i'r ysgol ar y bws, er bod mwy na thraean o'r myfyrwyr yn mynd yno yn y car. Mae'n ymddangos bod elfen o dderbyn y sefyllfa o ran goresgyn problemau mynediad i wasanaethau addysg. I gwestiynau ynghylch sut y byddai trigolion cefn gwlad yn ymdopi â mynediad gwael i wasanaethau, cafwyd yr ymateb "byddwn yn gyrru'r plant" neu "mae'r plant yn mynd yn y bws". Hyd yn oed os oedd y pellter y byddai angen ei deithio yn fawr weithiau, fe dderbynnid bod hynny'n angenrheidiol er gwaethaf galwadau am fwy o gyllid i ysgolion lleol o du rhai ymatebwyr.

## 6.8 Gwasanaethau meddygol

Mae tri chwarter yr ymatebwyr yn teithio i'w meddygfa yn y car, ac mae un rhan o bump o bobl yn cerdded. Lleiafrif yn unig (7%) sydd â siwrnai o fwy nag 20 munud er bod y rhain yn fwyaf cyffredin ymhlith y rhai sy'n byw yng nghefn gwlad agored a phentrefi nag ymhlith pobl y dref. Mae dau draean o bobl y Gymru wledig yn byw o fewn 10 munud i'r

fferyllfa y maent yn ei defnyddio amlaf. Mae'r trigolion yn fodlon ar lefel y gwasanaeth a ddarperir gan eu meddyg teulu, ar y cyfan, ond mae rhai o elfennau'r gymdeithas wledig, yn enwedig yr oedrannus, yn cael anhawster i gyrchu gwasanaethau o'r fath.

Mae 14% o'r bobl yn teithio mwy na 45 munud i gyrraedd eu deintyddfa. I un ym mhob deg o bobl, mae eu deintydd wedi'i leoli y tu allan i'r Gymru wledig, yn fwyaf aml yn y Cymoedd neu yn ninasoedd neu ardaloedd trefol Cymru, megis Casnewydd ac Abertawe. Mae 3% o'r ymatebwyr wedi'u cofrestru gyda deintyddion yn Lloegr. I rai mae'r rhain yn agos i'r ffin â Lloegr, megis yng Nghroesoswallt; i eraill maent yn bellach i ffwrdd, er enghraifft yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Sir Derby. Mae mwy na chwarter y bobl yn anfodlon ar leoliad eu deintydd. Mae cyfran lai (10%) yn anfodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan eu deintydd. Yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ddeintyddol yn y Gymru wledig yw darparu mwy o ddeintyddion GIG, neu i ddeintyddion preifat ddychwelyd i'r GIG (a nodwyd gan 24% o'r ymatebwyr). Mae 16% o'r ymatebwyr yn galw am ragor o ddeintyddfeydd neu ragor o ddeintyddion. Mae'n eglur bod yr anfodlonrwydd hwn ar ddarpariaeth gwasanaethau deintyddol yn ennyn sylw yng Nghymru ac yn y DU ar hyn o bryd ac mae wedi'i enwi fel problem yn yr Arolygon o Wasanaethau Gwledig yng Nghymru, fel y'i tanlinellwyd yn adran 4.2. Mae'n glir mai'r unig fecanwaith ymdopi a all gael ei ddefnyddio o ran cyrchu deintyddion yw naill ai teithio'n bell i gyrchu gwasanaethau o'r fath neu beidio â mynd at y deintydd.

### 6.9 Gwasanaethau Llyfrgell a Gwasanaethau Hamdden

Nid yw gwasanaethau llyfrgell a gwasanaethau hamdden yn cael eu defnyddio'n arbennig o dda mewn ardaloedd gwledig gan nad yw bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn rheolaidd. Mae 90% o'r rhai sy'n ymweld â llyfrgelloedd yn mynd i'r un agosaf atynt, sydd yn achos mwy na thraean o'r bobl yn llai na phum munud i ffwrdd. Mae ychydig dros 10% o'r ymatebwyr yn teithio dros 20 munud i gyrraedd y llyfrgell. Lleiafrif o'r bobl yn y Gymru wledig sy'n ymweld â phwll nofio neu ganolfan hamdden, a fydd 65% o'r trigolion byth yn defnyddio'r cyfleusterau hyn. O'r rhai sy'n mynd i ganolfan hamdden, y peth mwyaf cyffredin yw i'r ymatebwyr fynd unwaith y mis. I'r mwyafrif o bobl, mae'n cymryd rhwng 11 ac 20 munud i deithio i ganolfan hamdden, ac mewn car y bydd 76% yn mynd yno. Er bod dosbarthiad y llyfrgelloedd sefydlog a theithiol yn gymharol dda mewn ardaloedd gwledig, mae'r cyfraddau defnyddio'n dirywio'n genedlaethol yn sgil dyfodiad y rhyngrwyd ac adnoddau

ar-lein. Yn achos canolfannau hamdden, mae'n eglur bod rhwystr ffisegol sy'n eu hatal rhag cael eu defnyddio, o ran y pellter y mae angen ei deithio a'r amser y mae hynny'n ei gymryd. Unwaith eto, trafnidiaeth breifat yw'r brif ffordd i ymdopi â'r problemau mynediad hyn.

### 6.10 Diweddglo

Mae'r adroddiad ymchwil hwn wedi tynnu llun o ddarpariaeth gwasanaethau gwledig a mynediad yn y Gymru wledig drwy ddefnyddio nifer o wahanol ffynonellau data. Mae'r rhain yn cynnwys Arolwg 1996 ac Arolwg 2004 o Wasanaethau Gwledig yng Nghymru, yr Arolwg o Fyw a Gweithio yn y Gymru Wledig, dadansoddiadau mynediad wedi'u seilio ar GIS o gronfeydd data o lefel pwyntiau ar gyfer amrywiol wasanaethau, ac arolwg newydd o 200 o aelwydydd o ardaloedd lle ceir gwahanol lefelau o fynediad i wasanaethau a gwahanol nodweddion gwledig. Mae'r gwahanol ffynonellau data hyn wedi darparu gwybodaeth allweddol am lefelau hygyrchedd gwasanaethau a lefelau darpariaeth gwasanaethau, ac wedi rhoi golwg hefyd ar sut mae trigolion cefn gwlad yn ymdopi â gwahanol raddau o fynediad i nifer o wasanaethau. Mae'r mathau o strategaethau ymdopi yn amrywio, gan ddibynnu ar y gwasanaeth o dan sylw, fel y gwelir yn y crynodeb yn yr adran hon, ac un elfen allweddol yw lefel symudedd personol fel ffactor sy'n penderfynu a yw llawer o wasanaethau ar gael i drigolion cefn gwlad yn rheolaidd neu beidio.

## Cyfeiriadau


Yr Asiantaeth Cefn Gwlad, (2001) *State of the Countryside 2001*, Yr Asiantaeth Cefn Gwlad, Cheltenham

Yr Asiantaeth Cefn Gwlad (2004) *The State of the Countryside 2004* (Yr Asiantaeth Cefn Gwlad, Llundain)

Bibby, P. a Shepherd, J. (2004) *Developing a New Classification of Urban and Rural Areas for Policy Purposes - the Methodology.* [Ar gael ar-lein] http://www.statistics.gov.uk/geography/nrudp.asp [Wedi'i gyrchu 7/3/06]

Bradley, T., Lowe, P. a Wright, S. (1986) Introduction: Rural Deprivation and the Welfare Transition, Pennod 1 yn Lowe, P., Bradley, T. a Wright, S. (Goln) *Deprivation and Welfare in Rural Areas,* 1-42, Norwich, Geobooks.

Christie, S. a Phone, D. (2002) Equity of access to tertiary hospitals in Wales, UK – a travel time analysis. *GeoHealth* 2002. [Ar gael ar-lein] http://www.business.otago.ac.nz/SIRC05/conferences/2002_GeoHealth/43_christie.pdf [Wedi'i gyrchu 7/3/06]

Clark, D. a Woollett, S. (1991) *English Village Services in the Eighties*, Rural Development Commission Rural Research Series No. 7, RDC, Llundain.

Cloke, P., Milbourne, P. a Thomas, C. (1994) *Lifestyles in rural England*, Adroddiad Ymchwil i Adran yr Amgylchedd a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a'r Comisiwn Datblygu Gwledig.

Cloke, P., Goodwin, M., Milbourne, P. a Thomas, C. (1995) Deprivation, Poverty and Marginalization in Rural Lifestyles in England and Wales, *Journal of Rural Studies,* 11(4), 351-365.

Y Comisiwn Datblygu Gwledig (1992) *1991 Survey of Rural Services*, RDC, Llundain.

Y Comisiwn Datblygu Gwledig (1995) *1994 Survey of Rural Services*, RDC, Llundain.

Y Comisiwn Datblygu Gwledig (1997) *Survey of Rural Services*, RDC, Llundain.

Cromley, E.K. a McLafferty, S.L. (2002) *GIS and Public Health*. The Guildford Press, Efrog Newydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Cynllun Datblygu Gwledig Cymru: 2000-2006*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Furuseth, O. (1998). Service provision and social deprivation. Yn B. Ilbery (Gol.) *The Geography of Rural Change*, Essex: Longman Ltd. tt. 233-256.

Gweithrediaeth yr Alban (2004) Urban Rural Classification 2003 -2004. [Ar gael ar-lein] http://www.scotland.gov.uk/library5/rural/seurc.pdf [Wedi'i gyrchu 7/8/05]

Higgs, G. a White, S.D. (2000) Alternatives to Census-based Indicators of Social Disadvantage in Rural Communities. *Progress in Planning*. 53(1), 1-81

Higgs G (Gol.) (2003) *Rural Services and Social Inclusion* (Pion, Llundain)

Lovett A, Haynes R, Sunnenberg G a Gale S (2000) *Accessibility of Primary Health Care Services in East Anglia.* School of Environmental Sciences, University of East Anglia, Norwich

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.* Llywodraeth Cynulliad Cymru

Moseley, M.J., Harman, R.G., Coles, O.B. a Spencer, M.B. (1977) *Rural Transport and Accessibility,* Adroddiad terfynol i Adran yr Amgylchedd, 2 gyfrol, Centre of East Anglian Studies, University of East Anglia, Norwich

Moseley, M.J. (1979) *Accessibility: the Rural Challenge.* Methuen, Llundain.

Nutley, S.D. (1980) Accessibility, Mobility and Transport-related Welfare: the Case of Rural Wales, *Geoforum*, 11, 335-352.

Nutley, S.D. (1981) *The Evaluation of Accessibility Levels in Rural Areas,* Y Swyddfa Gymreig, Caerdydd.

Nutley, S.D. (1983) *Transport policy appraisal and personal accessibility in rural Wales*, Geobooks, Norwich.

Nutley, S.D. (1985) Planning options for the improvement of rural accessibility: use of the time-space approach, *Regional Studies,* 19(1), 37-50.

Nutley, S.D. (1992) Rural areas: the accessibility problem, yn Hoyle, B.S. a Knowles, R.D. (Goln) *Modern Transport Geography*, Belhaven, Llundain, 125-154.

Nutley, S.D. (1996) Rural transport problems and non-car populations in the USA: A UK perspective, *Journal of Transport Geography,* 4(2), 93-106.

Nutley, S.D. a Thomas, C. (1992) Mobility in Rural Ulster: Travel Patterns, Car Ownership and Local Services, *Irish Geography,* 25(1), 67-82.

Nutley, S.D. a Thomas, C. (1995) Spatial Mobility and Social Change: the Mobile and the Immobile, *Sociologia Ruralis*, 35(1), 24-39.

Penchansky, a Thomas, The Concept of Access – Definition and Relationship to Consumer Satisfaction, *Medical Care*, XIX(2), 127-140

Shaw, J.M. (Gol.) (1979) *Rural Deprivation and Planning*, Geobooks, Norwich

Shucksmith M (2004) *Exclusive Countryside? Social Inclusion and Regeneration in Rural Areas* (Sefydliad Joseph Rowntree, Caerefrog)

Talen E, (1998), Visualizing fairness: equity maps for planners", *Journal of the American Planning Association*, 64, 22-38

White, S.D, Guy, C.M a Higgs, G (1997) Changes in Service Provision in Rural Areas: Part 2: Changes in Post Office Provision in Mid Wales: A GIS Based Evaluation, *Journal of Rural Studies*, 13(4), 451-465.

White, S.D. a Hughes, R.G. (2005) *Gwasanaethau Gwledig yng Nghymru: Adroddiad ar ran Arsyllfa Wledig Cymru*. Llywodraeth Cymulliad Cymru, Caerdydd.

Yr Ystadegau Gwladol (2004) Key Statistics for urban areas in England and Wales [Ar gael ar-lein] http://www.statistics.gov.uk/census2001/cn_106.asp [Wedi'i gyrchu 12/12/05]